B.) The 3rd page, and the 2nd hymn.—On the 5th day in the 1st month.—You may take the fourth part of the corn.—Here beginneth the sixth chapter of the first Book of (THE) Kings.—|| *They* also must make haste.—You must not go from home so often: you must stay at home.—I have no home.—Must we tell you? No, you need not.—The clergyman is reading the first four verses of the eighth psalm.—How many verses are there in that psalm? Nine.—Which is the 3rd commandment?—You know him well, don't you? Yes, I know him, and I know you too.—Don't they see me? No, they see neither you nor your servant.—I do not know him; but I know his three sisters.—Can the shoemaker mend them? No, he cannot mend them.—We cannot praise you,—you are such poor writers.—He does not know the 100th psalm.—She is reading the 201st hymn.—Which page is it? The 307th.—You are **the third daughter**, are you not? No, I am **the fourth**.—We intend to set out on the tenth day of the ninth month.—|| *We* do not like the eighth hymn: do || *you*? Yes, we do; but we like the seventh better.—Which page is it in your book? The 103rd.—Why must || *they* and their sisters make haste to learn their lessons?—We must never tell an untruth,—we must always the truth.—The servant must work and be silent.—They must not make a noise.—I am not obliged to obey (to) him.—Why are you so fond of disobeying (to) me?—He cannot give out the hymn.—You need not do as they tell you.—They are doing their best, and their fellow-servants must not interfere with them.—Are you not afraid of us? No, we are not afraid of you.—He must learn the ten commandments.—He knows them as well as you (do).—|| *She* does not want the candles; but || *we* want them.—You may go away,—we don't want you.

C.) Hwy a'n gwelant ni; ond ni welant mo'r meddygon.—I bwy y mae'n rhaid i ni ufuddhau? I'ch rhieni.—Mi a fedraf y pedwerydd gorchymmyn ar dafod leferydd; ond ni fedraf mo'r bedwaredd salm.—Y mae'r trydydd pennill cyn gystal a'r ail.—Ni a'u hadwaenom hwy; ond nid adwaenom chwi [mo honoch chwi].—Ni chlyw efe mo honynt.—Mi a'i clywaf hi cyn gystal a chwithau.—Y mae yn rhaid iddynt fod yn ddistaw, a pheidio â chadw swm.—Os rhaid i ni fod yn ddistaw, rhaid i chwithau hefyd fod yn ddistaw.—Nid oes ond tri phenill yn yr emyn yma.—Y canfed tudalen, a'r nawfed emyn ar ol y cant.—Lle y mae cartref y ddynes dlawd yma? Nid oes ganddi yr un cartref.—Y mae'n rhaid iddynt beidio byth âg anufuddhau i ni eto.—A raid i ni gadw swm? Na raid, y mae'n rhaid i chwi beidio.—Nid wyf ddim yn ei ystyried [yn ystyried mo hono] yn farchogwr da.—A ydych chwi yn hoffi mo honi [ddim yn ei hoffi]? Nac ydym.—Nid rhaid iddynt frysio adref.

D.) You must keep these pretty things for your youngest sister.—There's (= *yonder*) Iorwerth running after the school children.—My master wants you to repair these.—We cannot repair them.—(To) whom must I obey? (To) your master and mistress.—She knows the 3rd stanza; but she does not know the 4th and the 5th.—They know || *us*; but they do not know our grandsons.—They hear || *you*; but they do not hear || *him*.—Does he see him? No.—She does not know them.—Why must the gardener obey (to) her commands? He need not obey (to) them.—“They must not,” said she, “interfere with me.”—The boy cannot read the 202nd hymn.—How many verses are there in that (= *there*) hymn? Six.—Are you not afraid of these bulls? No, we are not afraid of them.—Don't they want the sovereign? No, they don't want it.—We prefer the 7th stanza to the 6th.—She is not obliged to sell her pony.—He must never do so again.—Must we go with the stranger? No, you must not.—Must they give you the ten pounds? No, they need not.—We are obliged to disobey their commands.—If || *we* must help || *them*, || *they* must help || *us*.—|| *You* have comfortable homes; but this man has not a home.—Who must begin? **You and your two daughters** must begin.—Don't they understand us? No,

they don't understand you.—Don't you consider him a good doctor? No, I don't.—Which of the servants must do this work? The strongest of them.—Who must give out the hymn? **He** must.—The children must keep their books cleaner.—We never interfere with the clergyman's work.—You must all promise not to make a noise.—He need not come, if he is not ready.—The men are not obliged to work so hard.—Who must keep their books clean? **The school children** must.

CHAPTER XXIV.

[The object preceding,—*a* and *yr*,—"beth yr ydych chwi yn ei weled?"—"the man has nothing to spend,"—"par o fotasau," "y par botasau,"—*chweugain*,—"for aught I know."]

Notes and References.

§ 257. When the object of an inflected verb, or of a periphrastic verb *except those tenses mentioned below*, or of an infinitive depending on the verb, takes precedence in the clause, the expletive **a** is placed before the main verb.

The object, thus placed, is *antithetical*, unless it be a rel. or interr. pronoun. [Give the *antithetical* form of the personal pronoun. *Prel. Remarks*, § 17.]

Pwy *a* welwch chwi yn y ffordd?¹ *whom do you see in the road?*

Pa rai o'r botasau hyn *a* fydd efe yn eu gwisgo? *which of these boots does he (habitually) wear?*

Pwy o honom *a* fedrant hwy eu canmol? *which of us can they praise?*
Chwychwi yn unig a' ganmolant, it is you only they praise.


§ 258. When the object of a periphrastic verb beginning with *wyf*, &c., or *oeddown*, &c. (i.e. *the pres., perf., definite, imperf., and plup.*), or the object of an infinitive depending on the said periphrastic verb, precedes, the expletive **y** or **yr** is placed before the main verb.

Beth *yr* ydych chwi yn ei weled? *what do you see?*

Beth *yr* ydych chwi yn ceisio ei weled? *what are you trying to see?*

[Beth *yr* ydych chwi wedi ei weled?—Beth *yr* ydych chwi wedi ceisio ei weled?—Beth *yr* oeddych chwi yn ei weled?—Beth *yr* oeddych chwi wedi ei weled?]

¹ This construction is often ambiguous when the subject is a noun. "Pwy *a* wel y dyn?" may signify either "whom does the man see?" or "who sees the man?" The context must determine the meaning.

 The 3rd pers. of pres. and of perf. definite has always *mae*, pl. *maent*, when the object precedes.

Beth y *mae* efe yn ei weled? Beth y *maent* hwy yn ei weled?

§ 259. Beth yr ydych chwi yn *ei* weled? } Gr. §§ 601,
Pwy o honom a fedrant hwy *eu* canmol? } 602.

§ 260. "The man has nothing *to spend*." "We do not know what *to say*." In sentences of this character the infinitive, if *transitive*, is preceded by a poss. pronoun, as in the foregoing construction.

Nid oes gan y dyn ddim i'w wario, *the man has nothing to spend*.
Ni wyddom pa beth i'w ddweyd, *we do not know what to say*.

§ 261. "Par o fotasau," *a pair of boots*. Partitive genitive.
Gr. § 444.

When an article or its equivalent precedes the former noun, the prep. *o* is dropped, and the latter noun is treated like an adjective. See Gr. § 439.

Y par botasau, *the pair of boots*. Fy mhar menyg, *my pair of gloves*.
Par menyg pwy? *whose pair of gloves?*
Par menyg fy ngwraig, *my wife's pair of gloves*. } Gr. § 405.
[Y dorth fara hon, *this loaf of bread*.]

§ 262. VOCABULARY.

Punishment, cosp, cospedigaeth, pl.-au (<i>f</i> .)	To eat, bwyta. To drink, yfed.
Dinner, ciniaw (<i>coll.</i> cinio), pl.-au (<i>m</i> .)	To dine, ciniawa. To spend, gwario.
Boot, botâsen, pl. botâsau (<i>f</i> .)	To leave, gadael.
Pair, pâr, pl.-au (<i>m</i> .)	To punish, cospi.
Ten shillings, deg swllt, chweu-	Only (<i>adv.</i>), yn unig.
To ask, gofyn. [gain ² (<i>m</i> .)	At dinner, ar giniaw.
For aught (or anything) I know, am (ddim) a w'n i.	

§ 263. EXERCISES.

A.) Pa un o'r merched ieuainc a welwch chwi? Yr ieuengaf a'r harddaf o honynt a welaf.—Pa gosp a haedda'r plant drwg yma?—Chwychwi yn unig a ganmolant.—Beth a dâl y par botasau hyn? Efe a dal chweugain.—Yr ydych i gyd yn bobl onest am (ddim) a w'n i.—Pwy a welant yn cerdded ar

² = chwe ugain, *six score, i.e. of pence*.

hyd y ffordd? Mab a merch y meddyg.—Beth a all dyn dall ei weled?—Ai y gareg yma a fedr efe ei thafu i'r afon? Ië.—Pa rai o'r parau hosanau hyn a ewyllysiwch eu cael? Y rhai cochion yna.—Nid nyhi a fedr efe eu cospi.—Nid hyhi, ond ei chwaer, a adwaenom.—Mi w'n i a chwithau beth a dal y botasau hyn.—Beth a fyddwch yn ei yfed? Dwfr.—Pa sawl milltir a fedr wch chwi eu cerdded mewn diwrnod?—Beth ydyw enwau y dynion anonest hyny (y rhai) a fwriadwch eu cospi?—Plant da yn unig a ganmola dynion da.

B.) [*Use the inflected verb: § 257.*] Whom do they see in that garden? They see **the clergyman's three daughters**.—How many languages do you know?—How much is that pair of boots worth? It is not worth ten shillings,—it is worth eight or nine shillings.—It is only good children they love and praise.—Which (*sing.*) of you can they help?—What punishment do they deserve? They deserve no punishment.—Which (*pl.*) of us do you wish to punish?—They are both at home for aught I know.—The lady knows as well as you how much your pair of black gloves is worth.—Is it I they wish to see? No, it is your parents they wish to see.—Whom do they know in this country? They do not know anybody.—What do they (habitually) drink with their dinner? Sometimes water, and sometimes wine.—What do you think of our new church? It is a very pretty church.—They are all good scholars for aught we know.—It is you, not your eldest sister, we praise.

C.) Pwy yr ydych chwi yn ei ammheu? Chwychwi yr ydym yn eu hammheu.—Pa gospedigaeth y maent hwy yn ei haeddu? Nid ydynt yn haeddu unrhyw gospedigaeth.—Arian pwy y mae'r dyn ieuanc diog yma yn eu gwario? Nid eich arian chwi y mae efe yn eu gwario.—Dyma yr hyn yr wyf yn ei ofyn iddynt.—Ai beudy y mae'r amaethwr yn myned i'w adeiladu yn y fan yma? Nage, ystabl.—Nid llaeth, ond gwin, y mae efe yn ei yfed.—Y pennillion hyn yr ydym yn eu hoffi oreu.—Beth y mae'r plant yn ei fwyta? Afalau a rhwynyn y maent yn eu bwyta.—Pa faint y mae eich ewythr yn myned i'w adael i chwi? Ni wyddom ni ddim.—Pa faint yr ydych yn ei ofyn am y par botasau hyn? Deg swllt [chweugain].—Nid y ganfed salm, ond y seithfed salm ar ol y cant, y mae yr offeiriad yn ei darllen.

D.) [*Use the periphrastic verb: § 258.*] Which of these stanzas does the lady like best? These five.—It is the truth I tell you.—What do your sons and daughters in law intend to do in London? I do not know.—Whom do you love? I don't love **you** (*sing.*)—I love **your cousin** (*f.*)—Is this the young man he is trying to teach? Yes.—We do not know what fields our uncle intends to sell.—What are we eating? You are eating **bread and cheese**.—Is it water they are drinking? No, they are drinking **wine**.—This is what they say about him.—We want to know whom (*pl.*) you are praising now.—Whose money are you spending? My father's money.—Which of them do you know best? We know **your (female) cousins** best.—What is she going to ask (*Ex. § 222*) me? I don't know what she is going to ask you.—Is this all (that) he is going to leave to your wife? Yes.

E.) Nid oes ganddo ddim i'w adael i neb.—Gyda phwy yr ydych chwi yn myned i giniawa heddyw? Gyda hen gyfaill i'm tad.—Pa le y mae eich tad a'ch mam-yng-nghyfraith? Y maent ar giniaw.—Beth sydd gan y saer i giniaw? Nid oes ganddo ddim ond bara a chaws.—Y maent i gyd yn dda am (ddim) a ŵyr efe.—Ai eich par hosanau chwi ydyw y rhai hyn? Ië.—Y mae genyf fi amryw barau o esgidiau da.—Par botasau pwy sydd gan y crydd? Fy mhar botasau i.—Nid oes genym yr un geiniog i'w gwario.—Ni ŵyr y meddyg ddim pa beth i'w ddweyd wrth y wraig glaf.—Rhaid i chwi beidio âg yfed fy ngwin i.—Ai eich botasen chwi y mae'r crydd yn ei thrwsio?—A oes genych chwi rywbeth i'w ofyn i mi? Nac oes, ddim.—Beth a fyddwch chwi yn ei yfed gyda'ch ciniaw? Llaeth neu ddwr.—Pa rai o honom yr ydych yn eu hadnabod oreu? Chwychwi a'ch dwy chwaer hynaf yr ydym yn eu hadnabod oreu.—Os oes arnoch eisieu gwybod hyny, rhaid i chwi ofyn i'ch merch-yng-nghyfraith.—Eich par menyg chwi ydyw y rhai hyn, onide? Ië.

F.) You have no right to ask me what I am doing.—He is not willing to give me that pair of gloves.—What has the servant to do in the stable? He has nothing to do.—He wants his dinner.—They are not afraid of your punishing them.—They want us to dine with them.—We cannot come with you now,—we are at dinner.—You are too fond of good dinners.

—How many pairs of stockings has your son? He has several pairs.—What punishment do I deserve? You deserve no punishment for aught we know.—Who is to dine with him to-day? Two or three of his best friends. Have you anything to say against us? No, nothing.—Why do they ask us to dine with them so often?—I have not a pound to leave to anybody.—She does not know what the sick boy can eat.—They have nothing to drink.—You must not ask the old lady how old she is.—I want him to mend this boot for me.—My master and mistress are at dinner; and the children are out in the garden playing.—It is only my grandfather that he knows.—What is the value of these boots,—are they worth ten shillings? We do not know what they are worth.—Why do you ask us what we drink with our dinner?—If they want to know what the lady and gentleman drink with their dinner, they must ask the servant.—Have you *nothing* to tell me? No, I have nothing to tell || *you*; but I have many things to tell your two aunts.—What! are you still at dinner? Yes, we are.

CHAPTER XXV.

[“I am hungry,” “I am thirsty,” “I long,”—“who wants?” “who is afraid?” “who is hungry?” “who is thirsty?” “who longs?”—“what do I want?” “what am I afraid of?”—“I want to have my boot mended,”—“this loaf of bread,”—*ceiniogwerth*.]

Notes and References.

§ 264. “I am hungry.” “I am thirsty.” “I long.”

I am hungry.

Y mae arnaf newyn (or eisieu bwyd), = *there is on me hunger* (or *want*)
Yr wyf yn newynog, = *I am hungry*. [of food].

I am thirsty.

Y mae arnaf syched (or eisieu diod), = *there is on me thirst* (or *want of*)
Yr wyf yn sychedig, = *I am thirsty*. [drink].

I long for or to.¹

Y mae arnaf hiraeth am, = *there is on me a longing for*.

Yr wyf yn hiraethu am, = *I am longing for*.

¹ To may also be expressed by *o eisieu* (=from want). I long to see my dear parents, *y mae arnaf hiraeth o eisieu gwelod fy anwyl rieni*.

Give the negative of *mae*. *Exercises*, § 212.

§ 265. **Want.** Read *Exercises*, § 212.

“*Who* wants?” *Want*, headed by an interrogative, a relative, or an antithetical subject, will be expressed in Welsh in the following manner. [Cf. “*who* has?” *Ex.* § 150.]

“Who wants a spoon?”

Pwy sydd arno² eisieu llŵy? } (= *who is with want of a spoon*
 Pwy sydd eisieu llŵy? (*coll.*) } *on him?*
 Pwy sydd âg eisieu llŵy (arno)?³ }

“Who wants to sleep?”

Pwy sydd arno eisieu cysgu? pwy sydd eisieu cysgu? pwy sydd âg eisieu cysgu (arno)?

“Who wants me?”

Pwy sydd arno fy eisieu (i)? pwy sydd fy eisieu (i)? pwy sydd â fy eisieu i (arno)?

“Who wants me to eat?”

Pwy sydd arno eisieu i mi fwyta? pwy sydd eisieu i mi fwyta?

The equivalents of *who is afraid?*—*who is hungry?*—*who is thirsty?*—*who longs (for or to)?* have the same construction as *who wants?*

§ 266. “*What* do I want?” When the *object* of “*want*,” or of the infin. depending on “*want*,” takes precedence, the clause will be thus rendered into Welsh.

“What do I want?”

Beth sydd arnaf ei eisieu?⁴ beth sydd arnaf eisieu? (*coll.*)
 Eisieu beth sydd arnaf? (= *want of what is on me?*)

² The number, person, and gender of the pronom. prep. depend on the subject of the clause.

Ai dyma'r wraig (yr hon) sydd arni eisieu'r dorth? *is this the woman who wants the loaf?*

Ai dyma'r gwragedd (y rhai) sydd arnynt eisieu'r torthau? *are these the women who want the loaves?*

Nyni sydd arnom eisieu'r torthau, **we** want the loaves.

³ This construction is more correct than the two preceding, but less common except in its elliptical form, *pwy sydd âg eisieu llwy?*

⁴ Probably for “*beth sydd arnaf â'i eisieu,*” = *what is on me with its want?*

“What do I want to hear?”

Beth sydd arnaf eisieu ei glywed?⁵ eisieu clywed beth sydd arnaf!

“What do I want you to hear?”

Beth sydd arnaf eisieu i chwi ei glywed?⁶

The equivalents of *what am I afraid of?* [*of what am I afraid?*]*—what am I afraid of hearing?—what am I afraid of their hearing?* have the same construction as *what do I want?* &c.

§ 267. “I bwy y mae arnoch eisieu danfon hwn?” If the part of the clause preceding the verb is the object of a prep., *mae* should be used. *Ex.* § 95, c.

I bwy y mae arnoch eisieu danfon hwn? *to whom do you want to send this?*

A phwy y mae arnynt eisieu ymweled? *whom do they want to visit?*

§ 268. Eng. I want to have my boot mended.

W. I want to have mend (*or* the mending) my boot.
(*Y mae arnaf eisieu cael trwsio fy motasen.*)

§ 269. “A loaf of bread,” torth o fara. *Gr.* § 444.

“This loaf of bread,” y dorth fara yma. *Ex.* § 261.

§ 270. VOCABULARY.

Hunger, newyn (<i>m.</i>), èisieu bwyd.	Loaf, torth, <i>pl.</i> -au (<i>f.</i>)
Thirst, syched (<i>m.</i>), eisieu diod.	Cup, cwpan, <i>pl.</i> -au (<i>f.</i> N.W.; <i>m.</i>
Food, bwyd, <i>pl.</i> -ydd (<i>m.</i>)	Spoon, llwy, <i>pl.</i> -au (<i>f.</i>). [S.W.]
Drink, diod, <i>pl.</i> -ydd (<i>f.</i>)	Lawyer, cyfrèithiwr (<i>m.</i>) <i>Gr.</i> § 130,
Longing, hiraeth (<i>m.</i>)	Workman, gwèithiwr (<i>m.</i>) [(<i>a.</i>)
Worth (e.g. <i>two-pennyworth</i>), gwèrth (<i>m.</i>)	Shepherd, bugail, <i>pl.</i> bugeiliaid
Pennyworth, ceiniogwerth ⁷ (<i>f.</i>)	Else (= <i>other</i>), arall. [(<i>m.</i>)
Halfpennyworth, dimeiwerth (<i>f.</i>)	Hungry, newynog.
Two-pennyworth, gwerth dwy	Thirsty, sychedig.
Comb, crib, <i>pl.</i> -au (<i>f.</i>) [geiniog.	To be hungry.
Nut, cnèuen, <i>pl.</i> cnàu (<i>f.</i>)	To be thirsty.
	To long (for or to.)

⁵ Probably for “beth sydd arnaf *âg* eisieu ei glywed,” = *what is on me with want of its hearing?*

⁶ Probably for “beth sydd arnaf *âg* eisieu i chwi,” &c.

⁷ In “ceiniogwerth” and “dimeiwerth,” *gwerth* follows the genitive and with it forms a compound word, as in Eng. In other cases it precedes the genitive, and is written separately. Six-pennyworth, *gwerth chwe cheiniog*; a shilling’s worth, *gwerth swllt*.

To break ; cut, tòri.

To satisfy hunger, tori newyn.⁸

To quench thirst, tori syched.

To comb, cribo.

To sleep, cysgu.

To send, ànfon, dànfon.

To open, agor.

To shut, cau.

To shoe, pedoli.

§ 271. EXERCISES.

A.) Y mae ar y gweithwyr eisieu bwyd [newyn].—Yr ydym oll yn newynog ac yn sychedig.—Nid oes arnom eisieu bwyd ; ond y mae arnom eisieu diod.—Y mae arnom hiraeth [yr ydym yn hiraethu] am ein rhieni.—Nid oes ar neb o honynt hiraeth am [o eisieu] eich gweled.—Pwy sydd (arno) eisieu'r gwpan arian yma? Myfi sydd (arnaf) ei heisieu.—Honacw ydyw'r wraig foneddig (ag) sydd (arni) eisieu siarad â'r cyfreithiwr.—Beth sydd ar y dyn dieithr sydd wrth y drws ei eisieu? Eisieu gweled y cyfreithiwr neu ei wraig sydd arno.—Pwy sydd â syched (arno)? Y bugail.—Pa rai o'r bugeiliaid sydd (arnynt) ein heisieu ni? Nid oes ar neb o honynt eich eisieu.—Dyma'r gweithwyr sydd arnynt eisieu i chwi roi gwaith iddynt.—Pwy o honoch sydd arno eisieu i fy nhad wario ei arian? Nid oes ar neb o honom eisieu i'ch tad na chwithau wario dim.—Ai tydi sydd arnat ofn y bugail?—Nid ofn y bugail sydd arnaf, ond ofn ei gi.—Ai chwydychwi sydd âg eisieu bwyd (arnoch)? Nage, nid nynt,—y gweithwyr sydd arnynt eisieu bwyd.—Pa rai o honoch sydd arnynt hiraeth am eu cartref? Y mae ar rai o honom hiraeth mawr am eu cartref.—Dacw'r saer sydd arno syched bob amser.—Y mae efe a'i gyd-weithwyr (*Ex.* § 167) yn rhy hoff o ddiod.—Dwfr ydyw'r ddiod oreu iddynt.—Beth arall sydd ar y cyfreithiwr ei eisieu? Nid oes arno eisieu dim arall.—Nid y rhai hyn [*coll.* y rhai'n] ydyw'r gwartheg sydd arnom eu hofn.—Beth arall sydd arni hi ofn ei ddweyd?—Ai dyma'r llythyr sydd arni hi ofn i mi ei agor a'i ddarllen? Ië.—Dyma'r ddau ddrws sydd arnom eisieu i chwi eu cau.—Y mae ar y gwr boneddig eisieu cael pedoli ei geffyl.—Pwy sydd (arno) eisieu cael tori ei wallt? Y mae ar dri neu bedwar o honom eisieu cael tori ein gwallt.—I ba un o'r plant y mae arni hi eisieu danfon [anfon] ceiniogwerth o gnau, a gwerth tair ceiniog o rwnyn ac afalau?—Pwy sydd arno eisieu cribo ei wallt? Myfi sydd.

⁸ Cf. Eng. "to break one's fast."

B.) What else do the two lawyers want? This is all (that) they want.—Of what is she afraid? She is afraid of the shepherd's large dog.—Which of us three (*f.*) do you want? We want **the youngest of you**.—They are not hungry, but they are thirsty.—He longs for (**HIS**) home, and for his wife and children.—Who wants them? **The two shepherds** want them.—These are the lawyers whom we want to see.—Which door does he want the servant to shut? That (*near*) door.—What do you want the lawyer to send you? I want him to send me his silver cup (*Gr.* § 408).—We do not know how many of these workmen are hungry.—Is it I they are afraid of? No: they are afraid of **me**.—It is not money that the shepherds want: they want **drink**.—Where are the young men who want to have their hair cut? There (= *yonder*) they are speaking to the shopkeeper's sons.—How much does the shepherd want? He wants six-pennyworth.—Is this the little girl who wants to have her hair combed? Yes; but you have no comb to comb it.—Who wants nuts? We don't want any.—What does the little boy want me to send him? A pennyworth of nuts, and two-pennyworth of plums.—Are these the two letters that you are afraid of my opening? No.—Which of them are afraid of sleeping in these beds? They are all afraid.—To whom do you want to send these loaves of bread? To the shepherd's wife.—To which field do you want the two servants to go?—What else does she want? She wants a cup (*Ex.* § 166) of tea or a cup of coffee.—We long to visit you; but we cannot leave (**OUR**) home now.—For whom do you want to buy six-pennyworth of nuts? For the shepherd's boy.—Who has my father's silver cup? **I** have it.—Which door are they afraid of the servant shutting? The garden door.—Is it the lawyer's wife that she is afraid of seeing? No, it is the lawyer, not his wife, that she is afraid of seeing.

C.) Ai myfi sydd arnoch ei ofn? Nage, nid chwychwi, ond y cyfreithwyr sydd arnom eu hofn.—Os oes arno eisieu bwyd, dyma fwyd iddo ef.—Pwy sydd â hiraeth am danynt? Y mae ar amryw o honom hiraeth am danynt.—Dacw'r hen wraig sydd arni eisieu torth o fara.—Beth yr ydych yn myned i'w gymmeryd i dori eich newyn? Bara a chaws,—nid oes dim yn well.—Y mae arnom oll eisieu dwfr neu laeth i dori ein

syched.—Beth sydd arnynt eisieu ei ddweyd wrthyf?—A ydyeh chwi yn sychedig? Nac ydwyf; ond yr ydwyf yn newynog.—Pa rai o honynt sydd (arnynt) eisieu siarad â mi? —Pa un o honom ein dwy sydd ar eich cymmydog ei heisieu? Yr hynaf o honoch.—Pwy sydd ar y bugail ofn ei weled? Nid nyni sydd arno ofn eu gweled.—Ai chwychwi sydd (arnoch) eisieu cael pedoli eich ceffylau? Ië.—Y maent oll yn hiraethu am ddyfod adref.—Nid oes arnom (na) newyn na syched; ond y mae arnom hiraeth am ein rhieni.—Pwy sydd (arno) eisieu'r grib yma? Myfi sydd (arnaf) ei heisieu.—Pa ham y mae arnynt ofn cysgu yn yr ystafelloedd hyn? Ni wyddom ni ddim.—Pr hen wraig sy'n byw yn y ty acw y mae arnom eisieu danfon [anfon] y dorth fara yma.

D.) We want some drink,—milk or water,—to quench our thirst.—They must not break these cups.—What do you want to satisfy your hunger? We want something that we can eat.—If you are hungry, here is food for you.—This is not the door we are afraid of your shutting.—We do not know who wants you.—**The lawyer** wants me.—Who is thirsty? **The lawyer** is thirsty.—How many of them long to see us? They all long to see you.—These workmen want something to satisfy their hunger: can you give them a loaf of bread?—Tea is better than wine to quench thirst.—Are these workmen fond of drink? Several of them are too fond of drink.—Which of the children wants a cup and a spoon? That little boy.—Which of them wants to speak to me? **The eldest sister** wants to speak to you.—How much money do the workmen want? They want ten shillings.—What is he afraid of telling us?—Is this the silver cup that the lawyer's eldest daughter wants me to give her? Yes.—Whom (*pl.*) do you want, and whom (*pl.*) do these workmen want?—Is it this gentleman who wants to have his horse shod?—Are you hungry? No, we are not hungry; but we want to have some drink to quench our thirst.—Nobody longs for them.—What do they want their parents to send them? A shilling's worth of apples and pears.—To whom do you want the servant to send this loaf of bread? To a poor old woman in the village.—She must not take || *my* loaf of bread.—We do not know of anything better than tea to quench thirst.

CHAPTER XXVI.

[*Ataf, oddi arnaf, oddi wrthyf, rhagof*,—"with whom are you angry?" "on whom I depend,"—*i*, at (*to*),—*o*, *oddi wrth, oddi ar, gân, rhâg* (*from*),—"y goeden rwnyn."]

§ 272. Pronominal prepositions.

Ataf (*fi*), *to me*. *Gr.* § 378. *Oddi wrthyf* (*fi*) *from me*. *Gr.* § 380.
Oddi arnaf (*fi*), *from me*. *Gr.* § 378. *Rhagof* (*fi*), *from me*. *Gr.* § 379.

Notes and References.

§ 273. Interrogative and relative pronouns under government of prepositions. *Gr.* §§ 711, 865.

Wrth bwy yr ydych chwi yn ddig? = *with whom are you angry?*

*Pwy yr ydych chwi yn ddig wrtho?*¹ (not common) = *whom are you angry with him?*

*Yr hwn yr wyf yn ymddibynu arno,*² = *whom I depend on him.*

Ar yr hwn yr wyf yn ymddibynu (less common), = *on whom I depend.*

§ 274. *To, i; ât* (md.)

I, to, noting motion towards a place or object, into which an *entrance* is made. [Opposed to *o*.]

Pa bryd yr ydych yn myned i Lundain? *when are you going to London?*

Into is expressed by *i* or *i mewn i*. [Opposed to *o* or *allan o*.] *Y maent yn dyfod i'r [i mewn i'r] ty,* *they are coming into the house.*

At, to, = towards, noting proximity, but not *entrance*: hence it is used before *persons*; and also before *places* and *things*, when entrance into them is not implied. [Opposed to *oddi wrth*,—see below.]

Pwy sydd i fyned at y cyfreithiwr? *who is to go to the lawyer?*

When *to* implies *for the benefit* or *advantage of*, &c. (e.g. "after verbs expressive of gift, delivery," &c.), it is expressed by *i*, even before persons. *Y mae efe yn anfon y gwpan arian yma i Iorwerth,* *he sends this silver cup to Iorwerth.*

§ 275. **From**, *o; allan o; oddi*³ *wrth; oddi ar; gân* (md.); *rhâg* (rd.)

¹ ⚡ Not "wrtho ef."

² ⚡ Not "arno ef."

³ The prep. *oddi* is not used by itself: it is for the most part followed by an *adverb* or *another preposition*. *Oddi yma* (=from here), hence: *oddi aew*, from yonder: *oddi yno* (=from there, *o. of s.*) thence: *oddi rhwng*, from between.

a) Distinction between **o**, **oddi wrth**, and **oddi ar**.

O, *from*, opposed to "to,"—see above, § 274.

Pa bryd ymae hi yn dyfod o Lundain? *when is she coming from London?*

When **from** is exactly equivalent to *out of*, it may be expressed by *o* or *allan o*. [Opposed to *i* or *i mewn i*.] Y maent yn dyfod o'r [allan o'r] ty, *they are coming from [out of] the house*.

Oddi wrth, *from*, = from by, from besides or by the side of.

Oddi wrth y wal, *from* (*i.e. from close to or touching*) *the wall*.

Pa ham yr ydych yn ei ddanfôn ef oddi wrthyh? *why do you send him from you?*

Oddi ar, *from*, = from on, off (before inanimate objects); from one's person, possession, &c., noting privation (before animate objects.)

Y mae hi yn cymmeryd y cyllyll oddi ar y bwrdd, a'r afalau oddi ar yr eneth fach, *she is taking the knives from the table, and the apples from the little girl*.

From used metaphorically is generally expressed by *oddi wrth*: sometimes by *oddi ar*. It is clear from what you say that, &c., *mae'n eglur oddi wrth yr hyn a ddywedwch mai*, &c.

b) Distinction between **gan** and **oddi wrth**.

Gan, *from*, = from the agent himself acting without the intervention of other means. It occurs most frequently with the verb *cael*.

Byddaf yn cael swllt yn anl gan fy ewythr, *I often get a shilling from my uncle*.

Oddi wrth, *from*, = from by or besides, acting by means of an intervening instrument. [Opposed to *at*.]

Byddaf yn fynych yn derbyn llythyrau oddi wrth fy nghyfaill sy'n byw yng Nghaerfyrddin, *I often receive letters from my friend who lives at Carmarthen*.

c) Distinction between **rhag** and **oddi wrth**.

Rhag, *from*, when not in actual contact with or possession of (often) something dangerous or unpleasant, or what one wishes to avoid.

Y mae'r plant yn dianc rhag y cŵn, *the children are running away from the dogs*.

From, with a participle, and noting prevention (e.g. to keep one *from falling*), is expressed by *rhag* with infinitive. Yr ydym yn ceisio cadw'r bachgen rhag myned atynt, *we are endeavouring to keep the boy from going to them*.

Oddi wrth, *from*, when in actual contact or mixed up with or close to.

Y mae'r dynion yn dianc oddi wrth eu gwaith, *the men are running away from their work.*

Obs. The difference between *rhag* and *oddi wrth* is not always strictly observed.

§ 276. The same verb may be followed by the different forms according to the idea implied in "from."

"Dianc o'r carchar," to run away (or escape) *from* or *out of* prison.

"Dianc oddi ar ddyn," to run away *from* a man (*from his grasp*).

"Dianc oddi wrth ddyn," to run away *from* a man (*from close to him*).

"Dianc rhag dyn," to run away *from* a man (*not being necessarily in sight of him, and unwilling or fearing to come under his power*).

"Cael llyfr gan gyfaill," to have or get a book *from* a friend (*given by him personally*).

"Cael llyfr oddi wrth gyfaill," to have or receive a book *from* a friend (*sent by him through a medium*).

§ 277. Y goeden rwnyn, *the pear tree.* Gr. § 408.

§ 278. VOCABULARY.

Carmarthen, Caerfyrddin. Gr.	To hide, cùddio.
§ 147.	To hide one's self, ymgùddio. ⁴
Wall, gwâl, <i>pl.</i> -iau (<i>f.</i>)	To escape, run away, dianc.
Orchard, pèrllan, <i>pl.</i> -au (<i>f.</i>)	To steal, lladràta, dŵyn.
Prison, carchar, <i>pl.</i> -au (<i>m.</i>)	To expect, disgwyl.
Danger, perygl, <i>pl.</i> -on (<i>m.</i>)	To remember, cofio.
Hay, gwàir, <i>pl.</i> gwèiriau (<i>m.</i>)	To save, achub.
Shelf, silff, <i>pl.</i> -oedd (<i>f.</i>)	To drown; to be or get drowned, boddi.
Reason, rhêswm, <i>pl.</i> rhesymau (<i>m.</i>)	Near (TO), agos (at or i).
Cause, achos, <i>pl.</i> -ion (<i>m.</i>)	Unwilling, anfôddlon, anewyllÿsgar.
To receive, dèrbyn.	To and into. See above.
To fall, sÿrthio, cŵympo.	From and out of. See above.
To depend (on), ymddibynu (<i>ar</i>).	
From door to door, o ddrws i ddrws.	
To send [give] regards to, cofio at (=to remember to.)	
My friend's = my friend's house, ty fy nghyfaill.	

§ 279. EXERCISES.

A.) Nid ydyw'r caeau (y rhai) y mae y gweithwyr yn myned iddynt, ddim ym mhell oddi wrth dy fy ewythr.—At bwy y mae hi yn bwriadu ysgrifenu? At gyfnither iddi sydd yu byw yng Nghaerfyrddin.—Pa le y mae'r cyfreithwyr (y

⁴ What is the force of the prefix *ym*? Gr. § 224.

rhai) yr ydych yn myned i ddanfôn y llythyrau hyn atynt, yn byw? Yn Llundain.—Y mae'r bobl dda yma yn gofyn o ba wlad yr ydych yn dyfod, ac i ba wlad yr ydych yn myned.—Y mae'r berllan (yr hon) y mae'r garddwyr yn dyfod o honi, yn berllan fawr iawn.—Yr ydym yn mesur oddi wrth y goeden afalau at y wal.—Pwy sydd yn lladrata [dŵyn] enau ac afalau oddi arnaf? Nid oes neb o honom ni yn lladrata na chnau nac afalau oddi arnoch.—Pa rai o honoch sy'n cymmeryd llyfrau oddi ar y silffoedd hyn? Y rhai hyn sydd.—Bydd Myfanwy yn cael par o fenyg bob blwyddyn gan ei modryb, a bydd yn derbyn dau neu dri o lythyrau bob hanner blwyddyn oddi wrth ei chyfnither sy'n byw yn agos i Gaerfyrddin.—Gan bwy y maent yn cael arian i brynu dillad newyddion? Gan eu dwy fodryb.—Rhag pwy y mae'r gweision yn dianc? Rhag eu meist'r a'u meistres.—Pa ham yr ydych yn dianc oddi wrth eich gwaith? Nid ydym yn ei hoffi,—dyna'r achos pa ham yr ydym yn dianc oddi wrtho.—Rhaid iddynt beidio â dŵyn [lladrata] afalau oddi ar y coed.—Y mae'n well gan rai plant fyned at yr ysgol nag i'r ysgol.—Oddi wrth bwy yr ydych yn dyfod? Yr ydym yn dyfod oddi wrth y meddyg, ac yr ydym yn myned at yr offeiriad.—Nid oes dim rheswm yn ei eiriau.—Y mae'r bugail yn bur anfoddlon [anewyllysgar] i fyned i'r mynydd at ei ddefaid.—Y mae arnaf ofn i chwi syrthio [gŵympo] oddi ar eich ceffyl.

B.) To whom are you writing this long letter? To a friend of mine who lives near (to) Carmarthen.—This is the gentleman from whom we get pears, plums, and nuts.—To which of us are you going to give the reward? To the best scholar.—From whom are you coming? From a friend of my father's.—From whose house is she coming? From her uncle's.—There is no reason in what you say.—The country, to which we are going, is not very beautiful.—From whom do parents take sharp knives? From little children.—These silly boys run out of the orchard into the deep river.—Why does the shoemaker send (to) me such ugly boots?—Is it not necessary to take the sharp razor from the boy? Yes; and it is also necessary to take the bottles and cups from the table.—The carpenter does not like his work,—that is the reason (W. = *the cause*) why he is running away from it.—Is it to Carmarthen you

daughters-in-law are going? Yes.—Why does she take the books from the shelf? She wants to read them,—that is the reason why she takes them.—From whom do the servants get money to pay for their new shoes and hats? From their master.—It is very seldom they get anything from us.—We expect several letters from some friends of ours at Carmarthen, and we are writing two or three to other friends who live in another town.—To which of the orchards are we to go? To that (= *yonder*).—There is no reason in what the lawyer says.—Where is the smith's son-in-law going? To a small village near Carmarthen.—Why do the boys and girls hide their faces from us? They are afraid of you,—that is the reason why they hide their faces from you.—From whom are they trying to escape? They are trying to escape from no one.—The gardeners are going to the orchard, not coming from it.—It is seldom we receive any letters from her.—Which of you is afraid of my falling from my horse?—Is it from these shelves you take the books? No.—You must not take the nuts from her.—Why does he hide himself from me?—What have you to spend? I have only ten shillings to spend.—Who steals the hay from the cow-house? I do not know.

C.) Nid oes neb o honynt yn ceisio achub y dyn rhag boddi.—Pa ham yr ydych yn dianc oddi wrth eich cyfeillion?—Y mae'r ei yn boddi.—Y mae efe yn ceisio cuddio pob peth oddi wrthyf.—Pwy sydd (arno) eisieu eich cadw oddi wrthynt?—Nid yw'r meddyg ddim ym mhell oddi wrthyf: y mae efe yn agos atoch.—Nid ydwyf yn cofio dim am dano.—Yr ydym yn awr yn agos at ein [i'n] cartref.—Nid yw'r bobl ddiog yma yn gwneyd dim ond myned o dy i dy, ac o ddrws i ddrws.—Y maent oll yn cofio atoch yn garedig iawn.—Y mae'r dynion mewn perygl o foddi, ac nid oes neb yn ceisio eu hachub rhag boddi.—Y mae'r gwas yn lladrata yr yd oddi ar y ceffylau, a'r gwair o'r ystabl.—Rhag pwy y mae gwraig y bugail yn ym-guddio? Rhag y masnachwr,—y mae arni hi arian iddo.—Y mae'r dyn (yr hwn) yr wyf yn danfon y llythyr yma ato, yn grefftwr rhagorol.—Nis gallaf achub y gaseg lās rhag boddi.—Pa rai o honynt sy'n ceisio dianc (allan) o'r carchar? Nid oes yr un o honynt yn ceisio dianc (allan) o'r carchar.—A ad-waenoch chwi y foneddiges ieuanc hardd acw (yr hon) y mae

eich brawd hynaf yn siarad â hi? Nac adwaen, nid adwaen mo honi.—Oddi wrth bwy yr ydych yn disgwyl derbyn arian? Oddi wrth awdwr y llyfr hwn.—Y mae'r boneddwr (yr hwn) yr ydych yn siarad am dano, yn gefnder i'm cymmydog.—Nis gallwn ymddibynu arnynt.—Chwi a allwch ymddibynu arno, —ni bydd un amser yn dweyd anwiredd.—Y mae yn gymmaint pechod dŵyn gwair a dŵyn aur.—Y mae'r holl blant yn dianc o'r ysgol.—Pa ham y mae arnynt eisieu i ni foddi ein cwn?—Pa cyn belled [pa mor bell] ydym ni oddi wrth y dref? Y mae'r eneth yn cuddio ei gwyneb rhagom.—Ai am danom ni y maent yn siarad? Nage, am eich taid a'ch nain.—Anaml iawn y byddwn ni yn derbyn llythyrau oddi wrthynt.—Nid arnoch chwi, ond ar eich dŵy fodryb, yr ydym yn ymddibynu.—A welwch chwi yr afal yn syrthio oddi ar y goeden? Gwelaf.

D.) Why does he steal the corn from the horse?—I am unwilling to take this book from you.—Why does he hide himself from you? He does not hide himself from us.—The gentlemen, to whom we write these letters, are very liberal and always kind to poor people.—I want to know your reason why you think so.—We expect several letters to-day from our nephews and nieces.—About whom are they speaking? About us.—The servants do not try to save the mare from being drowned [from drowning].—We are all trying to escape from this prison.—Some of the boys are stealing plums from the orchard, and nuts from the little girls.—We are measuring from the wall of the orchard to that (= *yonder*) pear tree.—I cannot save you from going to prison.—You must not depend on the men from whom you expect to receive letters.—Why don't they try to save the dog from being drowned?—We don't run away from the schoolmaster.—The men are escaping from prison.—The man is being drowned.—Why do you ask the shepherd to drown his three dogs?—Who wants to hide the hammer and nails from the carpenter?—They are not far from us.—You must not go near (to) that dangerous rock.—I do not remember what her name is.—My parents send their kind regards to you.—Iorwerth is near the church, and Arthur is going into church, and Myvanwy is in church.—The old lady, to whom your aunt is speaking, cannot

remember anything.—You need not fear,—the doctor is near you.—Why is the smith's wife so fond of going from house to house?—The man is in danger of falling from his horse.—How far is the apple tree from the wall? It is five or six feet from the wall.—They keep me here from day to day.—On whom does she depend? She depends on || you.—I must run to him,—he is in great danger of being drowned.—Her grandmother does nothing but go from door to door.—Where are they all going to-day? They are going to their uncle's.—There are only three yards from the wall to the plum tree.—My aunt sends her kind regards to your mother and sisters.

CHAPTER XXVII.

[Adjective pronouns, *much, many, little, few, &c.*,—*ag* and *nag* before *sydd, yw*, and *mac*,—*a* and *y* after *ag* and *nag*,—*mwy, chwaneg, rhagor*, —“nid oes *fawr* o goed yn y berllan.”]

Notes and References.

§ 280. **Adjective pronouns** expressive of number and quantity (corresponding to *many, much, too many, too much, little, few, &c.*) require the prep. *o* between them and the noun or pronoun. *Gr.* § 444 : also §§ 557, 558.

Much hay, <i>llawer o wair.</i>	Too much corn, <i>gormod o ôd.</i>
Many castles, <i>llawer¹ o gestyll.</i>	Too many stockings, <i>gormod o hosanau.</i>
As much wheat, <i>cymmaint o wenith.</i>	A little honey, <i>ychydig² [tipyn] o fêl.</i>
As many loaves, <i>cymmaint [cynnifer] o dorthau.</i>	A few lambs, <i>ychydig² o wŷyn.</i>
More oats, <i>mwy[rhagor, chwaneg] o geirch.</i>	Less oats, <i>llai o geirch.</i>
Most men, <i>y rhan fwyaf o ddynion.</i>	Fewer castles, <i>llai o gestyll.</i>
	Too little cheese, <i>rhwy fach o gaws.</i>

§ 281. *Ychydig*, following the verb, = *a few ; a little.*

Ychydig, preceding the verb, } = *few, but few ;*
Nid...ond ychydig, following the verb, } *little, but little.*

¹ *Llawer* followed immediately by the sing. is = *many a*. *Llawer dyn*, many a man. [*Llawer gwaith* (=many a time) is usually translated “many times.”]

² *O* is often omitted after *ychydig*. *Ychydig fêl. Ychydig wŷyn.*

Y mae ganddi hi ychydig o wenith, *she has a little wheat.*
 Ychydig o honom sy'n myned,
 Nid oes ond ychydig o honom yn myned, } *few of us are going.*

This is often the case with other words; i.e. the placing a word antithetically carries with it the force of *but* or *only*.

Dwy fuwch sydd yn y cae, there are only two cows in the field.
Swllt a allaf ei ennill mewn diwrnod, it is only a shilling I can earn in a day.

§ 282. **Ag** and **nag**. When *ag* (as³), or *nag* (than) represents a nominative case (subject-nom. or predicate-nom.), the verb is *sydd*, if the term following is indefinite; but *yw*, if definitive. When *ag* or *nag* represents any other case (with periphrastic verbs), or when it comes after an adverb or an adverbial phrase, the verb is *mae*, pl. *maent*.

Y mae genym ni fwy o fŵyd nag *sydd* ganddynt hwy, *we have more food than they have.*

Yr ydwyf fi mor onest ag *ydyw* yntau, *I am as honest as he is.*

Y mae ei brawd yn fwy gofalus nag *ydyw* hi, *her brother is more careful than she is.*

Yr ydym ni yn darllen cymmaint o newyddiaduron ag *ymaent* hwythau yn eu darllen, *we read as many newspapers as they read.*

Yr ydych chi yn dysgu mwy nag *y mae* hi yn ei ddysgu, *you learn more than she learns.*

Yr ydwyf fi yn gweithio yn fwy diwyd nag *y mae* hi, *I work more industriously than she does.*

§ 283. The expletives **a** and **y** (or **yr**) after **ag** and **nag**.

a.) When *ag* or *nag* represents a *nominative case* (subject or predicate) before the present *wyf*, *ydwyf*, &c., or the imperf. *oeddw'n*, *oeddit*, &c., no expletive particle precedes the verb.

Nid ydych chi cyn daled ag *ydwyf* fi, *you are not as tall as I am.*

Yr ydym ni yn onestach pobl nag *ydynt* hwy, *we are more honest people than they are.*

Y mae ganddo ef lai o inc nag *sydd* genych chi, *he has less ink than you have.*

b.) When *ag* or *nag* stands before a periphrastic verb beginning with **wyf**, &c., or **oeddw'n**, &c. (i.e. *the present, perf. definite, imperf. and plup.*), and represents *any other case than the nominative*, the verb is preceded by *y* or *yr*.

³ "In some phrases, *as* must be considered a nominative word [also an accusative word], or other words must be supplied. 'Appoint to office such men *as* deserve public confidence.' This phrase may be elliptical for 'such men as those who deserve public confidence.'" *Imperial Dictionary, s.v. "As."* The same remark is applicable to "than."

Yr ydym ni yn darllen cymmaint *ag yr ydych* chwithau (yn ei ddarllen),⁴ *we read as much as you do (as you read).*

Y mae fy modryb yn yfed llai o win *nag y mae* fy ewythr (yn ei yfed), *my aunt drinks less wine than my uncle drinks.*

c.) When *ag* or *nag* comes after an *adverb*, an *adverbial phrase*, or a *preposition and its case*, the verb, of whatever form or tense, is preceded by *y* or *yr*.

Yr ydych chwi yn siarad *yn gywirach nag yr ydym* ni, *you speak more correctly than we do.*

Yr ydych chwi yn gallu ysgrifenu *cyn gystal ag y* gall neb o honom, *you can write as well as any of us can.*

d.) In other cases *ag* and *nag* are followed by *a*. Section 257 in ch. xxiv. applies here.

Yr ydych chwi yn gweled mwy o bobl *nag a* welaf fi, *you see more people than I see.*

Y mae hi yn clywed cymmaint o swm *ag a* glyw ei gwr, *she hears as much noise as her husband hears.*

§ 284. VOCABULARY.

Much : many, llawer (<i>rd.</i>)	A few more, ychydig yn chwaneg or rhagor.
As (so) much, cymmaint.	A little too much, tipyn or ychydig yn òrmod. [òrmod.
As (so) many, cynnifer, cymmaint.	A few too many, ychydig yn
Too much ; too many, gòrmod.	Most, y rhan fwyaf.
More, mŵy, ⁵ chwaneg, rhagor.	
Any more, (dim) chwaneg, (dim) rhagor.	
Not ... any more, no more, nid ... dim mŵy ; nid ... dim chwaneg or rhagor.	A little, tipyn, ychydig (<i>md.</i>)
Much or many more, mŵy [chwaneg, rhagor] o lawer ; llawer mŵy, &c.	A few, ychydig (<i>md.</i>)
A little more, tipyn (yn) chwaneg or rhagor ; ychydig yn chwaneg or rhagor.	Little, but little, ychydig, nid ... ond ychydig, nid ... fawr. ⁶
	Few, but few, ychydig, nid ... ond ychydig, nid ... fawr. ⁶
	As (so) little or few, cyn lleied.
	Too little or few, rhy fach.

⁴ Yr ydym ni yn darllen *cymmaint a chwithau*,—*cymmaint ag yr ydych chwithau*,—*cymmaint ag yr ydych chwithau yn ei ddarllen*. The three forms are equally good ; but the third is the least common.

⁵ *Mwy* expects *na* (than) after it : therefore it cannot be used in translating, e.g. "is there *more* (= *any* more) wine in the bottle?" (A *oes chwaneg* or *rhagor* o win yn y botel?)—When *more* = "greater in degree," *mwy* expresses it better than *chwaneg* and *rhagor*. "You have no *more* right to speak than he has," nid oes genych chwi ddim *mwy* o hawl i siarad *nag* sydd ganddo ef.

⁶ *Fawr* in this construction is always in the *middle* sound It is pro-

Less or fewer, llai.	Trouble (= <i>toil</i>), trafferth, <i>pl.</i> -ion
Any less, dim llai.	(<i>m.</i>) [-au (<i>m.</i>)
Not...any less, no less, nid...dim llai.	Trouble (= <i>vexation</i>), blinder, <i>pl.</i>
Much less or fewer, llai o lawer, llawer llai.	Castle, castell, <i>pl.</i> cèstyll (<i>m.</i>)
A little less, tipyn (yn) llai, ychydig yn llai.	Wheat, gwenith (<i>m.</i>)
A few less, ychydig yn llai.	Oats, cèirch, <i>coll.</i> cÿrch, cèrch (<i>m.</i>)
Land, tir, <i>pl.</i> -oedd (<i>m.</i>)	Flesh; (flesh) meat, cig (<i>m.</i>)
Number, nifer, <i>pl.</i> -i; rhifedi (<i>m.</i>)	Butcher, cigydd, <i>pl.</i> -ion (<i>m.</i>)
(<i>Single</i>) number, rhifyn, <i>pl.</i> -au (<i>m.</i>)	Considerable, crÿn ⁷ (<i>before noun</i> : <i>md.</i>)
	A good deal or many (of), cryn lawer (o).
	As, ag. } See above.
	Than, nag. }

If you please, os gwelwch (chwi) yn dda, (= *if you see well.*)

Irregular adjective.

Drwg, *bad*, &c., cyn waethed, mor ddrwg, gwaeth, gwaethaf.

Comparison of adverbs. (*Ex.* § 187.)

Much or greatly, <i>yn fawr.</i>	As much, <i>cyn gymmaint.</i>	More, <i>yn fwy.</i>	Most, <i>(yn) fwyaf.</i>
Little, <i>ychydig.</i>	As little, <i>cyn lleied.</i>	Less, <i>yn llai.</i>	Least, <i>yn lleiaf, leiaf.</i>

§ 285. EXERCISES.

A.) Y mae gan y meddygon hyn ormod o amser, ac y mae genym ninnau ry fach.—Y mae gormod o amser cyn waethed a rhy fach.—Y mae gan fy ewythr gymmaint o dir ag sydd gan fy nhad, os nad oes ganddo fwy.—A ydych chiwi am gymmeryd chwaneg [rhagor] o win? Ydwyf, os gwelwch yn dda.—Nid ydym yn cadw cymmaint [cynnifer] o weision ag yr ydych chiwi.—Y mae eich ceffyl chiwi yn cael llawer mwy o geirch nag y mae fy ngheffyl i yn ei gael.—A oes llawer o'r milwyr yn y castell? Oes, y mae yno gryn lawer.—A oes gan y cigydd hwn fwy o hawl i werthu cig nag sydd gan y cigydd acw? Nac oes; ond y mae ganddo gymmaint.—Tydi ydyw'r

bably a contraction of "nemmawr," *not many or much, but few or little, scarcely any.* Nid oes *fawr* (or *nemmawr*) o goed rhwynyn yn y berllan yma, *there are but few pear trees in this orchard.*

⁷ *Cryn* before a numeral is=*about as many as* or "*full.*" Y mae *cryn* ugain o ddefaid yn yr ardd, *there are full twenty sheep in the garden.*

bachgen gwaethaf yn yr ysgol.—Nid ydym ni ddim yn waeth nag ydynt hwythau.—Y mae gan yr hen wragedd yma fwy [chwaneg, ragor] o dorthau nag sydd gan y rhai acw.—A oes gan y bachgen chwaneg [ragor] o'r enau da hyny? Nac oes.—Y mae y rhan fwyaf o blant yn hoffi chwareu.—Y mae y rhan fwyaf o honynt yn rhy hoff o fyned oddi cartref.—Y mae ar was y gwr boneddig yma eisieu ychydig [tipyn] o geirch i'r ceffylau, os gwelwch yn dda.—Nid oes fawr o gysur yn yr hyn a ddywedwch.—Y mae arnom eisieu tipyn (yn) chwaneg [ychydig yn chwaneg], os gwelwch yn dda.—Nid ydwyf yn foddlon i gymmeryd cyn lleied o dir; ond y mae fy nghymmydog yn foddlon i gymmeryd llai.—Y mae rhy fach o gadeiriau yn yr ystafell yma, ac y mae gormod yn yr ystafell arall.—Bydd Iorwerth yn clywed yn llawer amlach oddi wrth y gwr boneddig nag y bydd neb o honom.—Y mae'r plant yn gallu gweled a chlywed yn llawer gwell nag y mae eu rhieni.—Y mae cryn lawer o hen gestyll yn y wlad yma.—Y mae hi yn rhoddi cryn lawer o drafferth i'w chwiorydd.—Pa ham yr ydych yn rhoddi cymmaint o flinder iddynt?—Y mae genyf fi gryn nifer [rifedi] o lyfrau; ond y mae gan fy nhad lawer mwy.—Y mae cyn lleied o dân yn yr ystafell yma ag sydd yn yr ystafell arall, os nad oes llai.—Yr ydych chwi yn clywed mwy o swm nag a glywn ni.

B.) Has your neighbour (*f.*) as many geese as you have? Yes, she has more.—You have too much land, and your neighbours have too little.—My sister-in-law wants a few yards more of that white linen, if you please.—I want you to buy less meat and more bread.—Are the servants taking more oats? Yes.—There are a good many children in this school.—Our neighbour, they say, often takes a little too much wine.—Do you want a little? Yes, if you please.—These are the naughty boys who give so much trouble (= *vexation*) to their parents.—**He** is by far the worst boy in school.—He does not want so many.—These cows give less milk than those (*near*).—Those (= *yonder*) horses have [get] more oats than these.—Is there much good land in your country? No.—Most of them are going from home.—We are not willing to take less: we want more.—He must not give the horse so much oats.—|| *We* have too many geese, and || *you* have too few.—They want a

A.) Ai myfi a gyffyrddodd â chwi? Nage, eich brawd a gyffyrddodd â mi [eich brawd a ddarfu].—Onid eich chwiorydd a ganodd y gloch? Ië, hwynt-hwy a'i canodd [a ddarfu].—Pa un ai darn o gaws ynte darn o gig a roddasoch chwi i'r ddynes dlawd? Darn o gig a roddais iddi.—Ym mha le y rhoddasoch [rhoisoch] fy esgidiau? Wrth ddrws' eich ystafell wely y rhoddais [rhois] hwynt.—Y ceffylau, nid y gwartheg, a droisant hwy allan o'r cae i'r ffordd.—I ba le y trôdd eich gweision ddefaid fy nghymmydog? I'r ffordd fawr.—Myfi fy hun a ranodd yr arian rhyngddynt.—Pwy a ddywedodd wrthyhych ein bod yn hoffi teithio ar ein penau ein hunain [wrthym ein hunain]? Chwychwi eich hunain a ddywedodd wrthym.—Pwy sydd wedi eu rhanu yn dair rhan?—Mi a gerddais yr holl ffordd o'r Bala i'r Amwythig ar fy mhen fy hun.—Yr oedd yr Esgob ei hun yn bresennol.—Ni wyddom beth sydd wedi dyfod o'r bachgen, druan.—Pa beth arall a adawsoch chwi yn anghof? Fy Llyfr emynau a adewais yn anghof.—Erfyniais arno fy hun beidio â myned hebof.—Ai chwychwi a anghofiodd gymmeryd eich Llyfr gweddi i'r Eglwys? Nage, fy chwaer ieuengaf a ddarfu.—Hwynt-hwy (*coll.* y nhw) eu hunain a'n twyllodd ni.—Y mae'r dynion, druan, yr ydym yn ofni, yn (eu) twyllo eu hunain.—I bwy y prynasoch chwi'r ceffyl? I mi fy hun.—Y mae efe yn hoffach o hono ei hun nag o neb arall.—Lle y rhoddasoch chwi fy Llyfr gweddi? Dyma efe.

B.) Which of you travelled alone from Shrewsbury to Bala? None of us did.—Was it you that rang the bell? Yes, it was; we wanted to ask you a question.—He put to him what he considered a difficult question.—Who turned the geese into the field? The **men-servants** turned them.—They fought against themselves.—He cut the apple into four parts, and asked us to divide them between us.—Into how many parts have they divided the piece of ground (*l.u.* "land")? Into five parts.—It was the shopkeeper's idle son that I turned out of the parlour,—he had no right to come near (to) || *my* parlour.—Is **this** the Hymn-book that you left in church last Sunday? Yes.—What has become of him? We cannot tell you what has become of him.—The man is gone without it

(*m.*),—he is so very forgetful.—Who left his Prayer-book in church? I did.—We forgot to ask him a question which the clergyman put to us this morning.—You are too fond of praising yourselves.—She left the Prayer-book there herself.—**You yourselves** turned them into the high road.—He has not sung a single song for-a-long-time (*point of time*).—She is always by herself [alone].—You take more care of yourself than of anybody else.—Why did you run under the plum tree? Must I tell you why I ran under it? No, you need not.—Who told you that the lawyer intended to convert his kitchen into a parlour? **He himself** told me,—I saw him yesterday at Bala.—Myvanwy wants to know who put her new books on this dirty shelf? **She herself** put them there.—Did we not leave them under your care?—They came without them,—they say that they are so forgetful that they forget everything.—You must not touch things that don't belong to you.—It was either you or your fellow-servant that deceived the poor children. **We** did not deceive them.—In trying to deceive us they deceived themselves.—We all know Shrewsbury well.—It was not I that touched them.—For whom did you buy these cups and spoons? For ourselves.—You were afraid to show yourselves, were you not? Yes, we were.—How much money did those dishonest people steal from you? They stole a hundred and fifty pounds.—He is under age.—Do you want to know what has become of your Prayer-book and Hymn-book? Yes. Your little girl has taken them to church.—Where did you put the other pieces? Here they are.—Was it you or your cousins that travelled from Bala to Shrewsbury with them? **We** did.—There they are sitting by themselves.—They put the Prayer-book under their feet.

CHAPTER XXXVII.


[Compound prepositions,—*cyn* and *o flaen*,—*wedi* and *ar ol*,—*eriodd* and *byth*,—*yna*,—*ym mhlith* and *ym mysg*.]

Notes and References.

§ 358. **Compound prepositions** ending with a substantive. (List, *Gr.* § 373.)

Decline *ar fy ol* (*i*), after me. *Gr.* § 743.

§ 363. Give the indef. perf. of *sefyll* (*Gr.* § 235 (a); *chwerthin* (*Gr.* § 322).

 *Safais* or *sefais*; *safaist* or *sefaist*: *chwarddais* or *chwerddais*; *chwarddaist* or *chwerddaist*. *Gr.* § 241.

§ 364. VOCABULARY.

Enemy , <i>gelyn</i> , <i>pl.</i> -ion (<i>m.</i>)	About (= <i>near to</i> : <i>prep.</i>) <i>o gwmpas</i> , <i>ynghylch</i> , <i>oddeutu</i> (<i>rd.</i>)
Miller , <i>melinydd</i> , <i>pl.</i> -ion (<i>m.</i>)	About me , <i>am danaf</i> ; <i>o'm cwmpas</i> , <i>yn fy nghylch</i> .
Mill , <i>melin</i> , <i>pl.</i> -au (<i>f.</i>)	About (<i>adv.</i>), <i>o gwmpas</i> , <i>oddeutu</i> .
Such (<i>adj.</i>), <i>y fâth</i> (<i>md.</i>)	Opposite (<i>to</i>), <i>ar gyfer</i> (<i>rd.</i>)
Such (<i>adv.</i>), <i>y fâth</i> , <i>môr</i> or <i>cŷn</i> .	Opposite to me , <i>ar fy nghyfer</i> .
Ever , <i>erioed</i> ; <i>byth</i> ; ¹ <i>un amser</i> .	For the sake of , <i>er mwyn</i> (<i>rd.</i>)
Never , <i>not ... ever</i> , <i>ni ... erioed</i> ; <i>ni ... byth</i> ; <i>ni ... un amser</i> ; (<i>in elliptical answers</i>) <i>erioed</i> ; <i>byth</i> ; <i>un amser</i> .	For my sake , <i>er fy mwyn</i> .
For ever , <i>am byth</i> .	Instead of , <i>yn lle</i> (<i>rd.</i>)
Before (<i>prep.</i>), <i>cŷn</i> (<i>rd.</i>); <i>o flaen</i> (<i>rd.</i>); <i>gèr brôn</i> (<i>rd.</i>)	In my stead , <i>yn fy lle</i> .
Before me , <i>o'm blaen</i> ; <i>gèr fymrôn</i> .	Amongst , <i>ym mhlith</i> , <i>ym mysg</i> ³ (<i>rd.</i>): <i>i blith</i> , <i>i fysg</i> . ⁴
Before , = before then , <i>cŷn hŷny</i> .	Amongst us , <i>yn ein plith</i> [<i>mysg</i>]: <i>i'n plith</i> , <i>i'n mysg</i> . ⁴
Before (<i>adv.</i>), <i>o'r blaen</i> .	Then (= <i>at that time</i>), <i>yna</i> , <i>y pryd hwnw</i> (<i>or hyny</i>).
After (<i>prep.</i>), <i>wedi</i> (<i>rd.</i>); <i>àr ôl</i> (<i>rd.</i>)	Then (= <i>after that</i>), <i>yna</i> , <i>ar ol</i> (<i>or wedi</i>) <i>hyny</i> .
After me , <i>àr fy ôl</i> .	Then (= <i>in that case</i>), <i>yna</i> .
After , <i>after that</i> , <i>afterwards</i> , <i>wedi</i> (<i>or àr ôl</i>) <i>hŷny</i> , <i>wed'yu</i> .	Then (= <i>therefore</i>), <i>ŷnte</i> , <i>gàn hŷny</i> .
About (= <i>concerning</i> : <i>prep.</i>) <i>àm</i> ² (<i>md.</i>), <i>o gwmpas</i> (<i>rd.</i>), <i>ynghylch</i> (<i>rd.</i>)	Face to face , <i>wyneb yn wyneb</i> .

I am right, *yr wyf yn fy lle*, *yr wyf yn iawn*.

I am wrong, *yr wyf (allan) o'm lle*.

§ 365. EXERCISES.

A.) *Ymladdodd y milwyr yn erbyn gelynion eu gwlad*.—
A gyfarfuoch chwi âg ef erioed o'r blaen? *Na ddo*, *erioed*.—

¹ Monosyllables ending with *th* are long; but *byth* is long or short.

² As a rule, *am* should be used only when *about* may interchange with *of*.

³ There is a slight difference, though not always observed, between *ym mhlith*, and *ym mysg*, the latter implying less order than the former. *Ym mhlith angylion*, *amongst angels*. *Ym mysg hen lyfrau*, *amongst old books*. *Ym mhlith* (from *plith*, *cf. L. plecto*) = *interwoven with*: *ym mysg* (from *mysg*, *cf. L. misceo*) = *mixed up with*.

⁴ After verbs of motion.

Rhedasom ein goreu ar ol mab a merch y melinydd.—Cy-chwynais i'r Bala cyn deg o'r gloch, arosais yno tan ar ol dau, a daethym adref erbyn pump.—Aethant ill dau oddi yma ar ol ciniaw, ac ni welsom mo honynt byth wedi hyny [wed'yn].—Ni bydd ei thad a'i mam byth [un amser] yn codi o'i blaen.—A fuont hwy yn y felin wedi [ar ol] hyny? Na ddo, byth.—Nid yw ddim yn iawn iddynt eich dewis chwi o'n blaen ni.—Pa un ai ar eich ol chwi neu ar ein hol ni yr oedd gwraig y melinydd yn rhedeg? Yr ydwyf yn meddwl mai ar ol ein cymmydog anghofus yr oedd hi yn rhedeg.—Aethant oddi yma oddeutu [o gwmpas] awr a hanner cyn amser ciniaw.—Ni ddywedasom ni ddim yn eu herbyn nac am danynt.—A ydyw'r plant yn rhywle o gwmpas [oddeutu]?—O flaen [ger bron] pwy y safasant dros [am] ddwy awr? O'n blaen [ger ein bron] ni,—yr oedd arnom eisieu gofyn amryw gwestiynau anhawdd iddynt.—Y mae'n rhaid i'r melinydd anonest hwnw beidio byth â dyfod yn agos yma eto.—Ni ddywedodd fy ngwr i erioed y fath beth. Beth ynte a ddywedodd efe? Efe a ddywedodd, ym mhlith pethau ereill, eich bod chwi yn fynych yn eich lle, a'i fod yntau yn fynych (allan) o'i le.—Yr ydym wedi bod yn chwilio llawer am y llyfr ym mysg yr hen lyfrau hyn.—Tarawodd y bachgen yr eneth fach ar ei phen, ac yna rhedodd i ffwrdd.—Safasom wyneb yn wyneb.—Gallwch fyned i'r pentref ar ol ciniaw, ond nid cyn hyny.—Pa ham y chwarddasoch am eu pen (*or* eu penau)? Yn wir, nis gallen beidio.—Yr ydym wedi eu colli am byth.

B.) The miller came here before dinner, and went away about two hours after dinner.—|| *He* and his enemy stood face to face.—You tell me what I knew before.—Are they gone away for ever? No, not for ever.—Do you want || *me*? No. Whom then do you want?—He paid me first, and then paid my fellow-workman.—I never asked him for such a thing.—She stood before me for half an hour. Who stood before you? The miller's wife.—You may go if you like (*l.u.* "to choose") after dinner, but not before.—We never met them after.—We heard that they were both at the mill about eight o'clock this morning.—We never said an unkind word about || *you* or your daughters.—Some were walking before us, and some were walking after us.—Amongst other things, I said that they

were not always right.—Has she never been on a visit with her aunt? No, never.—Did you ever ask him afterwards? No, never.—The miller's wife is somewhere about, is she not?—Why did those ladies choose my youngest sister before me? Because they like her better than you.—We have never been on the top of that high mountain, neither (*Ex.* § 201) do we intend ever to go.—Is he unwilling? I think that he is. Then you must not go near the place.—We could not help laughing at them.—“You are right,” said he, “and I am wrong.”—What are they amongst so many?—There he is standing opposite the stable door.—We have never heard such things before.—There were but few before us.—The miller was (*p. ind.*) never here before.—Her two aunts never said a word about her afterwards.—He says that he wants to finish the first part of his book before March.—There never was (*p. ind.*) such a day as that before (*IT*), or after (*IT*).—The young men left us about five o'clock.—We never take any trouble about them now,—they are such ungrateful people.—He could not tell me what happened afterwards.

C.) Yn lle pwyl y mae hi wedi myned? Yn fy lle i.—Mae'n dda genym eich gweled unwaith eto yn ein plith.—Ni byddant byth [un amser] yn myned i fysg plant drwg.—Mi a wnaethym hyn er eich mwyn chwi a'ch mam.—Safodd y plant ddwy awr ar gyfer ffenestr y parlwr.—Pwy oedd yn eistedd ar eich cyfer?—Pa un ai ar fy nghyfer i neu ar eich cyfer chwi yr oedd efe yn eistedd?—Addawsant wneyd hyny yn ein lle ni a'n chwirydd; ond ni wnaethant.—Rhaid i chwi beidio â myned byth i'w mysg.—Yr oeddynt yma ill tri yng nghylch [oddeutu, o gwmpas] tair wythnos yn ol.—Pwy yr ydych wedi ei benodi yn athraw yn lle yr un a droisoch i fwrdd?—Ni chwerddais am ei ben ef na'i gân. Gwyddent hyny o'r blaen.—Nis gallwn weled y melinydd na'i wraig yn unlle o gwmpas.—Ni welsom mo hono erioed cyn hyny, ac ni welsom mo hono byth wed'yn.

D.) He is willing to do all this, and more, for her sake.—I stood there by myself for about three hours.—How tall was the man who laughed at you?—They need not do anything for our sake.—I am come once again amongst you.—They begged of us to tell you that they are not willing to do such hard

work instead of you.—It is not on their account that we are in such trouble.—You must endeavour to be more careful for your poor mother's sake.—The man stood opposite his greatest enemy.—They had no right to stand opposite to us.—Is **this** the man who is ready to undertake the work instead of that idle man, who has given it up? Yes, **this** is the man.—We were both (*f.*) ashamed to show ourselves on your account.—For they have heard that thou art amongst this people.—“For,” said he, “I have seen God face to face.”—Few of us are always right.—Most of you are oftener wrong than right.—We are delighted to have you amongst us.—Who was the gentleman who sat opposite to me at dinner? I do not know his name; but he has dined here once or twice before.—We never like to go amongst them.—We have asked the boys to go instead of || *us* and the girls.—There fell that day about three thousand men.—I did not laugh at them when they were reading.—Why have they appointed || *him* instead of || *you*?—We commanded them both never to come near this house again.—How long did you stand before them? For half an hour.—He is sure that the children are somewhere about.—I broke the knife after cutting the bread.

CHAPTER XXXVIII.

[Compound prepositions,—“*y tu ol i,*” “*y pen yma i,*” &c.,—*is law*, &c.,—*heb law*,—*cerdded* and *rhodio*.]

Notes and References.

§ 366. Compound prepositions.

a.) The prep. *i* is used idiomatically after several compound prepositions (*see Gr.* § 372); and after a few other words, mostly denoting *place*, such as *tu* and *ochr*, side; *pen*, end. These are rendered into Eng. either by prepositions, or by *of* preceded by a noun.

Y tu ol i'r drws, behind the door.

Y pen yma i'r pentref, this end of the hamlet.

Yr ochr [y tu] yma i'r mynydd, this side (of) the mountain.

b.) *Is law*, below or beneath; *ger llaw*, by or near; *uwch law*, above, are followed by *i* when the object is a personal

pronoun: when the object is a noun, *i* is not commonly employed. (*Gr.* §§ 744, 745.) The same remark applies to the simple prep. *heibio*, by.

Is law i mi, *beneath me.*

Is law mynydd uchel, *below a high mountain.*

Uwch law iddynt, *above them.*

Uwch law y mynydd uchaf, *above the highest mountain.*

Ger llaw i ni, *near us.*

Ger llaw afon ddofn, *near a deep river.*

Heibio iddo, *by him.*

Heibio ty bychan, *by a small house.*

c.) *Heb law*, besides. *Gr.* § 744 (a).

Heb law pethau ereill, *besides other things.* Heb law n.yfi, *besides me.* (*Ex.* § 25.)

☞ “*Heb law fi*,” *besides me*, and “*heb law ti*,” *besides thee*, are = “*heb law y fi*,” “*heb law y ti* ;” i.e. the coll. form of *myfi* and *tydi*.

§ 367. Give the finite roots of *cerdded* and *gafaelyd* (*Gr.* § 236); of *rhodio* and *cydio* (*Gr.* § 237).

§ 368. VOCABULARY.

Oswestry, Croesdswallt.

Stack; rick, *dâs* or *tâs*, *pl.* *dèisi* or *tèisi* (*f.*)

Rope, *rhâff*, *pl.*-*au* (*f.*)

End, *pèn*, *pl.*-*au* (*m.*)

Side, *òchr*, *pl.*-*au* (*f.*), *tu* (*m.*)

Back (*n.*), *cèfn*, *pl.*-*au* (*m.*)

Grave, *bêdd*, *pl.*-*au* (*m.*)

Understanding, *deall* (*m.*)

Notice, remark, *sylw*, *pl.*-*adau* (*m.*)

To walk, *cèrdded*; *rhodio*.¹

To take a walk (or turn), *rhòl tro*.

To go for a walk, *myned am dro* [*i roi tro*].

To lay or take hold of, *cýdio* [*gafaelyd*] *mewn* or *yn*.

To go by or past, pass (by), *myned* [*pàsiò*] *hèibio* (*rd.*)

Near (to), *agos* (*i* or *at*).

Near, by (*prep.*), *gèr llaw* (*rd.*), *gèr* (*rd.*)

Within ... (of), *o fewn* (*rd.*) ... (*i*).

Behind (*prep.*), *y tu ol* [*cèfn*] *i*.

Behind (*adv.*), *ar ol*.

Beyond (*prep.*), *y tu draw* [*hùnt*?] *i*.

Below, beneath (*prep.*), *is law* (*rd.*)

Above (*prep.*), *uwch law* (*rd.*)

Besides (*prep.*), *heb law* (*rd.*)

Besides (*adv.*), *heb law hyn* or *hyny*.

Outside (*prep.*), *y tu allan* [*maes*] *i*.

Outside (*adv.*), *y tu allan*, *oddi allan*.

(The) one ... the other, *y naill* (*md.*) or *un ... y llall*.

By this (time), *erbyn hyn*.

In spite of, *er gwaethaf* (*rd.*)

In spite of me, *er fy ngwaethaf*.

By, *pr.* and *ad.* (= *near*, in motion), *heibio* (*rd.*)

Probably, *mae'n debyg*.

¹ *Cerdded* is the general term for *to walk*. *Rhodio*, according to present usage, is *to walk for one's pleasure*, *to take a walk*; also *to walk*, metaphorically, = *to live*, e.g. “*to walk by faith*.”

² *Draw*, *hùnt* = *yonder*; *beyond*. *Yn y fan draw* (= *acw*), *in yonder place*. *Yr ochr draw i'r afon*, = *the side beyond the river*; *the other side of the river*.

Irregular adjective.

Agos : mor agos, cyn agosed [nèsed] : agòsach, nês : agòsaf, nèsaf : nèsaf.
near : *as or so near* : *nearer* : *nearest* : *next*.

Give the W. for the adverbs *near*, *nearer*, &c. [The rule for *adverbs of quality* applies here. *Ex.* § 187.]

§ 369. EXERCISES.

A.) Safodd y bobl y tu allan i'r drws am oddeutu dwy awr a hanner.—Y maent erbyn hyn, mae'n debyg, o fewn milltir neu ddwy i'w cartref.—Onid oedd yr eneth yn ymguddio ar y pryd y tu ol [cefn] i'r das [ddas] wair? Nac oedd, yn wir : ni bu yr eneth ddim yn agos i'r das [ddas] wair er's talm.—Yr ydwyf yn meddwl mai yn y pen yma i'r pentref y mae'r gof yn byw.—Pwy sydd wedi aros ar ol?—Y mae gwlad well i bobl dda y tu draw [hwnt] i'r bedd.—Arferai ein hanwyl gyfaill, yr hwn sydd wedi ein gadael am byth, rodio bob dydd ger llaw yr afon yma.—Sefais ger llaw iddo am hir amser.—Ym mha ben i'r rhaff y darfu i chwi gydio [afaelyd]? Yn y pen yma i'r rhaff y darfu i mi gydio [afaelyd].—Cerddasant cyn ciniaw o'r naill ben [o un pen] i'r dref i'r llall.—Beth oedd ar y gwr dieithr, oedd yn siarad â chwi y tu allan [maes] i ffenestr y parlwr, ei eisieu?—Y mae Llanfor yn agos i'r Bala, onid ydyw? Ydyw, y mae o fewn milltir i'r Bala.—Aeth y bachgen i'r ffair er ein gwaethaf.—Llanfyllin ger llaw [ger] Croesowallt.—Y mae'r hyn a ddywedwch is law sylw.—Eisteddodd un uwch law a'r llall is law iddi.—Yr ydym ni mor anwybodus fel y mae'r llyfrau hyn, y mae arnom ofn, ym mhell uwch law ein deall.—Pa ham na afaelasoch [chydiasoch] chwi ym mhen y ceffyl?—Pwy a gerddodd gyda chwi i'r dref heb law mab y cigydd? Ni cherddodd neb gyda mi heb law efe.—Siaradodd yn gas am danaf y tu ol i'm cefn.—Onid yw y saethau y tu hwnt i ti?—Safai un yr ochr yma i'r afon, a'r llall yr ochr draw (*or* arall).—Y mae cryn³ ugain o bobl yn sefyll oddi allan [y tu allan].—I ba le y maent yn myned i roi tro? I'r cae y tu draw i'r afon, yr ydwyf yn meddwl.—Pwy sy'n dyfod gyda ni i roi tro heb law chwydwi? Nid oes neb yn dyfod boreu heddyw heb law myfi.—Aethom heibio amryw dai ac Eglwys dlws.—Yr ydym ni yn myned i roi tro

³ See *Ex.* p. 131, *foot-note*.

[am dro] i'r cae gwair.—Y mae'r dyn tlawd cyn agosed perthynas i chwi ag ydyw i minnau, os nad yw yn nes perthynas.—Hwn ydyw'r llwybr agosaf [nesaf] i'r llan.—Heb law hyny, y mae'n ammheus genym a ydynt yn ddyinion gonest ai peidio.—Pa ham y byddant yn myned heibio i chwi heb siarad efo chwi?—Hi a ddaeth, wedi'r cwbl, o fewn yr amser.—Yr ydym yn hoffi rhodio ger llaw yr afon glws yma.—Dyna efe yn myned heibio.

B.) Above all things you must be honest, and endeavour to please the gentleman.—He laid hold of this end of the rope.—They have, I think, hid themselves behind the corn stack.—I have, probably, left several things behind.—There she is standing in front of (*l.u.* “before”) the house.—Why have you turned your back upon him?—They have asked several friends, besides you, to dine with them to-morrow.—It is seldom she ever takes notice of any of us.—Who told you that you were then within twenty yards of your friend's house?—The clergyman said in his sermon, which he preached this morning, that there is a better land beyond the grave for all who love God.—He walked with God.—They are all near neighbours.—They are nearer to you than to us.—Is Llanfyllin near (to) Oswestry?—Llanfyllin is, he thinks, within fifteen miles of Oswestry.—I put on the letter “Llansantffraid near Corwen.”—He took hold of a large knife, and threatened to kill us.—Was it you or the other boy that took hold of my horse's head?—He did not want any one, besides me, to go for a walk with him.—We are going to take a turn in your garden.—He took them in spite of me.—What did he take in spite of you? The roses from the rose trees, and the apples from the apple trees.—Besides, it is our duty to do so.—This is the nearest road to Corwen.—I sat at dinner next to a gentleman, who is, probably, the best rider in the whole (*l.u.* “all the”) country.—He made some excellent remarks on the duty of parents; but I have, I am sorry to say, forgotten most of them.—These books are, we fear, far above the children's understanding.—They have, probably, finished all their work by this time.

C.) That man's words are beneath my notice.—Some are below me and some are above me.—“The arrows,” said he, “are beyond thee.”—We promised to pay all our debts within

a fortnight.—Who is on the other side?—I see him on the other side of the river.—|| I laid hold of one end of the rope, and your brother laid hold of the other.—Don't you see him walking by the river?—The man threw the heavy stone beyond them.—Your father's friend lives, I think, at this end of the town.—We passed by a field of corn.—What is the reason that there are so many outside?—He finished his work within the time you gave him to finish it.—The ropes were, probably, at the other end of the hay rick.—Who was the young man who passed by about half an hour ago?—Do not medical men say that it is a good thing to take a walk before dinner?—And besides, you do not know how long we have been expecting you.—He passed us when we were going to school.—We have endeavoured to walk in the path of duty.—You were then, probably, within three or four miles of her comfortable home.—There they are (*near*) going by.—This young man can walk from one end of the field to the other in much less time than any of us can.—He passed by me without saying a single word.—They were going out for a walk when we met them.—They passed by this place about six o'clock this morning.

CHAPTER XXXIX.

[Transitive clause in perf. tense,—different forms,—“*you must have.*”]

Notes and References.

§ 370. **Transitive clause** in *perfect tense* may be expressed in different ways.

Form I.

Positive. “That I have learnt.” Fy mod (i) wedi dysgu.¹ *Gr.* § 761.

Negative. “That I have not learnt.” Nad wyf (fi) wedi dysgu. *Gr.*

§ 762.

Form II.

Positive. “That I learnt;” “that I have learnt.”

I mi,	i ti,	iddo (ef),	iddi (hi) ddysgu.	} <i>Gr.</i> § 765.
I ni,	i chwi,	iddynt (hwy)	ddyysgu.	

¹ This periphrastic form is, in *positive* sentences, sometimes employed to express perf. indef. = *that I learnt.*

Negative. "That I did not learn:" "that I have not learnt."

Na ddysgais (i), &c. *Gr.* § 765.

Or, with *darfod* prefixed. *Gr.* § 765 (a).

Pos. Ddarfod i mi ddysgu.² *Neg.* Na ddarfu i mi ddysgu.

Form III.

Positive. "That I learnt:" "that I have learnt."

Ddysgu o honof (fi): o honot (ti): o hono (ef), o honi (hi): o'r dyn.

Ddysgu o honom (ni): o honoch (chwi): o honynt (hwy): o'r dynion. } *Gr.* § 763.

(a) This is the most elegant of the three forms, but the least colloquial.

(b) The negative form is the same as Form II. (*na ddysgais*, &c.)

(c) Forms II. and III. are used to express the *perf. indef.* oftener than the *perf. def.*

§ 371. **Antithetical.** *Mai* (S.W. *taw*) is used when any part of the clause, except a finite verb, is antithetical. Negative, *nad*, or *mai* [*taw*] *nid*. *Gr.* §§ 772, 773.

Mai myfi sydd wedi bod yn y berllan, *that I (= it is I that) have been in the orchard.*

Mai nyni a nacäodd ei gynnorthwyo, *that we refused to help him.*

Nad [mai *nid*] at eu chwiorydd yr ysgrifenasant, *that it was not to their sisters they wrote.*

(a) "Mai myfi sydd wedi bod," &c.,—"mai nyni a nacäodd," &c. *Gr.* §§ 578, 641.

§ 372. "You *must* have taken the knife." When "must" may be explained by *necessarily*, or by *it must be that*, the sentence is translated by (*y mae yn*) *rhaid*, followed by a transitive clause.

You must be very hungry, (*y mae yn*) *rhaid eich bod yn newynog iawn.*³

The man must have taken the knife, *rhaid fod y dyn wedi cymmeryd y gyllell.*

You must have drunk the wine, *rhaid mai chwyehwi a yfodd y gwin.*

§ 373. VOCABULARY.

Opinion, bärn, *pl.*-au (*f.*)

Meaning, signification, ýstyr, *pl.*

Meaning (= *intention*), meddwl,

ystyriaethau, meddwl (*m.*)

pl. meddýliau (*m.*)

Sweet, melus or melys, *pl.*-ion.

² "Ddarfod i mi ddysgu," is elegant, but not common in coll. language

³ = there is need that you are very hungry.

Mistake, camgymmèriad, <i>pl.</i> -au (<i>m.</i>)	To thank (TO), diolch (i).
Behaviour, conduct, ymddÿgiad, <i>pl.</i> -au (<i>m.</i>)	To misunderstand, camddeall. ⁴
Street, heol, <i>pl.</i> -ydd (<i>f.</i>)	To mistake; to be mistaken, cam- gymmeryd.
Singing (<i>n.</i>), canu.	To mistake ... for, camgymmeryd ... yn lle.
Eye, llygad, <i>pl.</i> llygaid (<i>m.</i>)	To make a mistake, gwneyd cam- gymmeriad.
Proper (= <i>decent</i>), gweddus, addas.	To mean or intend (by), meddwl (wrth).
Improper, anweddus, anaddas.	Tomean, signify, arwyddo, meddwl.
Like (TO), <i>adj.</i> , tebyg i.	Towards (<i>pr.</i>), tua (<i>asp.</i>), tuag; ⁵ tuag at; at.
Like (<i>adv.</i>), fêl (<i>rd.</i>)	Towards me, tuag ataf.
To behave, conduct one's self, act, ÿmddwyn. <i>Gr.</i> § 322.	Already, eisoes, yn barod.
To hope, gobeithio.	
To lead, arwain.	

I am mistaken, yr wyf wedi camgymmeryd (*perf. def.*)

§ 374. EXERCISES.

A.) A ydych chwi yn meddwl dweyd fy mod i wedi camgymmeryd wrth ddewis hwn yn lle y llall? Nac ydym, nid ydym yn meddwl dweyd y fath beth.—Ai tybed fod y plant wedi bÿyta yr holl afalau melusion hyny?—Mae yn ddigon eglur nad ydych wedi deall fy meddwl.—Yr ydym yn gobeithio nad ydynt wedi gwneyd na dweyd dim yn anweddus [yn anaddas].—Mae'r meddyg yn sicr nad ydyw efe ddim wedi camgymmeryd; ond y mae yn ofni ein bod ni.—(Y mae yn) rhaid ein bod wedi eu camddeall.—Yr ydym newydd glywed fod rhyw ddyn anonest wedi eich twyllo: a ydyw hyny yn wir? Nac ydyw, ddim.—Y mae'r melinyddion yn dweyd eu bod wedi bod yn gweithio gormod yn y felin.—A ydych chwi yn sicr nad ydyw'r plant drwg hyny ddim wedi bod yn dÿwn afalau yn y berllan?—Pwy sy'n dweyd nad ydym wedi bod yn agos i'r ysgol er's pythefnos?—Nid yw'r meddyg ddim yn credu fy mod i wedi darfod fy nghiniaw eisoes [yn barod].

B.) [*Use Form I.*] Is it possible that he has returned already?—Are you sure that you are not mistaken. No: we are afraid that we are mistaken.—What a shame that they have conducted themselves so improperly!—We have just heard that two men have escaped from (THE) prison.—Are you

⁴ The prefix *cam* is = *mis*.

⁵ *Tua* and *tuag* are used only when *towards* = *in the direction to*, in a physical sense; and also when = *nearly*.

quite sure that the miller's eldest son went with them that afternoon?—Do you mean to say that they have not behaved properly?—Your mother says in her letter that she hopes you and your brothers have not eaten all those sweet apples.—We hope that they have not mistaken our meaning.—She must have been mistaken.—Is it true that you have spent the money already?—Who wants you to say that the carpenter's sons have not been working hard?—These men must have told us an untruth.—They are ready to take their oath that they have been looking for you all day.—We don't think that the poor old gentleman has been anywhere from this room for a fortnight.—Her grandfather says he is quite certain that he has not made a mistake.—They must have made a mistake.

C.) Yr ydwyf yn sicr (ddarfod) i'r eneth ddiolch i'r foneddiges am y dillad newyddion a gafodd ganddi.—Os yw yn dweyd na ddiolchasom iddo, yna y mae'n dweyd anwiredd.—Pwy sy'n dweyd (ddarfod) i mi gyfarfod eich dwy nith ar yr heol echdoe?—Yr ydym yn sicr na ddarfu i ni ei gamddeall.—Mae'n wir i fy nhad ofyn ystyr y geiriau hyny.—Ai tybed iddynt ymddwyn mor anweddus?—Mae yn dda genyf yn fy nghalon i chwi ymddwyn ddoe mor ddoeth a gweddus tuag at y dyn hwnw.—Onid yw yn ddrwg ganddynt na ddaeth y meddyg yn gynnarach?—Dywed yr eneth i'w brawd dori ei fys boreu ddoe â chyllell finiog.—Y maent oll yn dweyd na ddiolchasoch iddynt am yr hyn a gawsoch ganddynt.—Y mae arnom gywilydd dweyd i ni gamgymmeryd ei dy ef yn lle eich ty chwi.—Nid ydynt ddim yn sicr na wnaethant gamgymmeriad.—Ni ddywedasom ni erioed nad ymddygasoch tuag atom fel gwir gyfaill.—Mae arnom ofn na ddarfu i'r ddau felinydd ddweyd yr holl wir wrthych.

D.) [*Use Form II.*] Is it possible that the poor man did not thank the gentleman for being so kind to him?—He told me that he and his enemy met yesterday in the street, face to face.—It is quite plain that they mistook the meaning of those words.—My little boy says in his letter, which I received this morning, that your uncle behaved towards him like a father, when he fell and broke his leg.—He does not believe that anybody has ever heard of such improper conduct.—None of us ever said that they did not conduct themselves like gentlemen.

—I do not remember having ever seen you (W. = *that I ever saw you*) before last Sunday.—They do not remember having ever asked us the meaning of the word “already.”—Are you not glad that I was (*p. ind.*) not in the fair last Thursday?—Are you sure that you understood his meaning when he said so?—They are ashamed to say that they mistook the school for the church.—We are afraid that those boots did not last very long.—They are glad in their heart that they never promised such a thing.—Don’t you say that she turned her eyes towards you?—Who says that the young man did not mistake one sister for the other?—We are certain that they both promised to come here towards evening.—Do you then mean to say that you have never made mistakes?

E.) Mae yn dra sier gamddeall o hono feddwl neu ystyr y gair “ymddygiad.”—Nid wyf yn cofio glywed o honof y fath beth.—Yr ydym yn clywed arwain o honoch y canu yn dda.—Nid ydwyf yn gwybod ddywedyd o’r bachgen un gair cas wrth neb o honynt.—Y maent yn dweyd ar eu llw nad ymddygasant erioed yn anweddu tuag at neb.—Y mae’n ddrwg genym yn ein calon ymddwyn o honom mor anweddu tuag atynt.—Y mae yn wir addaw o honi hi dalu y chwe phunt.—Pwy sy’n dweyd gamgymeryd o’r gwr boneddig y naill chwaer yn lle’r llall?

F.) [*Take the examples under “D,” and translate them according to Form III.*]

G.) Nis gallaf fod yn sier mai tua’r afon y gwelais ef yn cerdded.—Onid ydyw yn dda genych mai nynt sydd wedi prynu’r ceffylau?—Mae pawb o honom o’r farn mai chwychw i a dorodd y ffenestri, ac a ddygodd y cwpanau arian.—Y maent yn gobeithio nad [mai nid] yn y ffair y mae’r ddau arddwr wedi bod.—Y mae’r gwas yn sier mai nid â’i gyllell ef y torodd y bachgen bach ei fys.—Mae yn dra thebyg mai camgymeryd a ddarfu i chwi [a wnaethoch].—A ydynt hwy yn dweyd mai hwynt-hwy (*coll.* y nhw, y nhwy) a ddiolchodd i’r wraig foneddig?—Yr ydych chi yn meddwl nad myfi a bedolodd y ceffylau: yr ydwyf finnau yn sier mai myfi a’u pedolodd.—A ydych chi yn dweyd mai chwychw i a arweiniodd y canu?

H.) [*Antithetic: see § 371.*] You are of (THE) opinion, are you not, that **my neighbour** sent that letter to the newspaper? No, I am not; for every one tells me that **you** sent it.—Myvanwy says that it was with this large stone the carpenter's boy broke the parlour window.—The boy is quite certain that it was not near the bridge he lost the half sovereign.—My wife tells me that **the gentleman**, who sat next to you at dinner, saved the young lady from being drowned.—Why are you so very glad that **I** have gained (*l.u.* “earn”) the prize (*l.u.* “reward”)?—We think that **you** wrote those letters.—He is pretty sure that it was not || *his* daughter who said that.—We trust (*l.u.* “hope”) that it was not you who wrote those unkind letters against us.—**The farmer's son** must have taken the two spades.—**The lady**, whom we met yesterday in the street, must have sent us all these pretty things.—Is it possible that **this** led him to prison?—The servant is ready to take his oath that **he** did not turn the ponies out of the field.—I am glad in my heart that **I** did not lead the singing that Sunday morning.—You say that **the carpenter's son** stole the apples; but it is much more likely that **you yourself** stole them.

I.) Beth yr wyt ti yn ei feddwl, fachgen, (*Gr.* § 752) wrth fod mor ddiog?—Pwy sydd nad yw yn gwybod beth ydyw ystyr [meddwl] y gair “pentref?”—Pa sut y gall dynion anwybodus, fel nyni, beidio â chamgymmeryd?—Y mae'r bachgen yn bur debyg i'w dad.—Nid yw efe ddim wedi myned i'r afon; ond y mae yn cerdded tuag ati.—Pwy ydyw hwnaew sy'n rhedeg ei oreu at dy [tua thy] y gof?—Y mae'r eneth yma yn debycach o lawer i'w modryb nag ydyw ei chwaer.—Nid oes ganddo yr un bunt ar ei helw tuag at dalu ei ddyled.—Dyna (*Gr.* § 551) a ddywedodd wrthyf echnos.—Beth y mae'r dyn yn ei feddwl wrth ddywedyd nad ymddygasom yn addas tuag ato?—Beth y mae'r gair “Bala” yn ei arwyddo? Yr ydwyf yn meddwl fod y gair “Bala” yn arwyddo “tref” neu “lan.”

J.) I saw him soon after, walking towards the doctor's house.—Is not that young man very like your nephew? Yes, really, he is very like him.—I do not know what this word means.—They are, like many others, fonder of spending money than of giving any to poor people.—He promised to come here

towards evening.—How many pounds have we towards paying the debt we owe the farmer for hay and corn?—This is || *my* opinion, and that is || *your* opinion.—This is what they told me, that I am always making great mistakes about something or other.—Have you good singing here?—He is of opinion that we are all wrong.—A learned man, like you, must know the meaning [signification] of the word “society.”—You have nothing to say against his conduct, have you?—What do you mean, man, by spending all your money?—Has he **black eyes or blue eyes**?—The word “inch” signifies “the twelfth part of a foot.”—He does not know what the other words mean.—If he is not a dishonest man, he is very like one.

CHAPTER XL.

[Cause and concessive clauses in perfect tense,—absolute clause,—*go, lled, pur, tra, iawn.*]

Notes and References.

§ 375. **Cause clause.** Perfect tense. A transitive clause may be converted into a cause clause merely by prefixing a causal conjunction.

Am ein bod wedi eu rhwystro.	Because we have hindered them.
O herwydd nad ydych wedi ymddwyn yn addas.	Because you have not acted properly.
Gan (ddarfod) iddo gymmeryd [gan gymmeryd o hono] yr holl waith arno ei hun.	Since [as, seeing that] he took all the work upon himself.
Yn gymmaint ag na ddaethant mewn pryd.	Inasmuch as they did not come in time.
Gan mai chwydychwi a brynodd y tai.	Seeing that you bought the houses.

§ 376. **Concessive clause.** Perfect tense. A transitive clause may be converted into a concessive clause merely by prefixing a concessive conjunction.

Er bod pawb o honynt wedi methu (â) fy narbwylllo.	Although all of them have failed to persuade me.
Er i'r dyn gymmeryd arno [er cymmeryd o'r dyn arno] fod yn wallgof.	Although the man pretended to be mad.
Er mai nyni a gauodd y drysau.	Although we shut the doors.
Er nad [mai nid] hwynt-hwy a agorodd y ffenestri.	Although they did not open the windows.

§ 377. Absolute clause. *Gr.* § 878, &c.*Positive.**Negative.*A mi (or myfi¹) yn ofnus, *I being timid.*A mi heb fod yn ofnus, *I not being timid.*A chwi yn darllen, *you reading.*A chwi heb fod yn darllen, *you not reading.*Ac efe wedi gorphen, *he having finished.*Ac efe heb orphen, *he not having finished.*

A cause clause, headed by *seeing that*, &c., and occurring in the 2nd or subsequent part of the sentence, is very often expressed in W. by the absolute construction. [Cf. Eng. *we having* = *seeing that we have.*]

Why are you offended with us, *seeing that we have done our best?* *pa ham yr ydych wedi digio wrthym, a ninnau² wedi gwneyd ein goreu?*

To followed by infinitive, and also a participle, used absolutely, are rendered into W. by *a* or *ac* with infinitive.

To tell you the truth, I have already spent all the money, *a dweyd y gwir wrthyeh, yr ydwyf wedi gwario yr holl arian yn barod.*

He is tolerably comfortable, considering everything, *y mae efe yn lled gysurus, ac ystyried pob peth.*

§ 378. Go (*mdl.*), lled (*mdl.*); pur (*mdl.*), tra (*asp.*); iawn.

Go, lled, *pretty, rather, somewhat, tolerably.* These particles are weaker than *pâr* and *tra*.

Pur, tra, *pretty, very* (unemphatic). *Pâr* and *tra* are weaker than *iawn*. But *tra* is sometimes stronger than *pâr*, and almost equivalent to *iawn*.

Iawn, *very*, both emphatic and unemphatic.

Dyn lled wybodus, *a tolerably well-informed man.*

Dynes led wybodus.

Dyn go wybodus. ~~Gr.~~ Dynes go wybodus.

} *Gr.* § 474, and (a).

Y mae efe yn dra gwybodus, *he is very well-informed.* *Gr.* § 692.

§ 379. VOCABULARY.

Advantage, *màntais*, *pl.* *man-teision* (*f.*)

Mad, *gwallgof.*

Timid, *ðfnus.*

Fence, *clàwdd*, *pl.* *clòddiau* (*m.*)

Well-informed, *knowing*, *gwybodus.*

Hedge, *gwrŷch*, *pl.*-*oedd* (*m.*)

To pretend, *cymmeryd arnaf.*

Dissenter, *ymneillduwr.* } *Gr.*

To take ... upon, *cymmeryd ... arnaf.*

Hypocrite, *rhagrithiwr.* { § 130.

To confess (to), *cyfaddef* (*wrth*).

¹ See *Prel. Remarks*, § 26.

² The conjunctive pronoun is used in this construction.

To stop, <i>v. int.</i> , aros.	So long, <i>adv.</i> cyhŷd.
To stop, hinder, prevent (from), rhwŷstro (i or rhag).	Rather, tolerably, &c. See § 378.
To fail, methu, methu â.	Rather than, yn hŷtrach na.
To persuade, darbwyllo, perswàdio.	Rather, <i>with comp.</i> , bràidd.
For (= because of), am.	Rather too, braidd yn rhy.

For my life, for the life of me, possibly, yn fy myw.

The more the pity, alas, unfortunately or unluckily, ysywaeth.

Rather too much or many, braidd ormod : braidd yn ormod (*predicative*).

Rather too little or few, braidd ry fach : braidd yn rhy fach (*predicative*).

I am offended with, yr wyf wedi digio wrth (*perf. def.*)

He pretends to be, y mae'n cymmeryd arno fod or ei fod (ef).

§ 380. EXERCISES.

A.) Y maent wedi digio wrthym am [o herwydd] ein bod wedi bod gyhyd oddi cartref.—Gan ei bod hi wedi anghofio ei gwerau yn barod, y mae'n rhaid na ddysgodd mo honi yn dda iawn.—Pa fodd y gallwch garu yr Eglwys, a chwithau wedi troi eich cefnau arni?—Nis gallaf yn fy myw ei ddarbwylllo [berswadio], er fy mod wedi ceisio fy ngoreu.—Os ydynt wedi dweyd hyny, y mae'n rhaid eu bod yn rhagrithwyr mawr.—Yr ydych wedi rhoddi braidd ormod o siwgr yn fy nhe.—Y mae efe yn ddyn go [lled] wybodus, ac ystyried ei fanteision.—Y maent yn cymmeryd arnynt fod [eu bod] wedi digio wrthyh o herwydd i chwi eu rhwystro [o herwydd rhwystro o honoch hwynt] i groesi'r afon.—Nid oes arni ddim hiraeth am ei chartref, er nad yw wedi bod gartref er's tair blynedd.—Ni ŵyr efe ddim beth y mae'r gair "ymneillduwr" yn ei arwyddo.—Gan i chwi gymmeryd y gwaith arnoch eich hun, eich dyledswydd yw ei wneuthur.—Er na wnaethom ddim allan o'i le, er hyny chwi a fuoch yn gas wrthym.—Y mae eich rhieni wedi digio wrthym o herwydd na rwystrasom chwi [o herwydd na ddarfu i ni eich rhwystro chwi] i fyned gyda ni ddoe.—Nis gallwn yn ein byw eu rhwystro rhag myned dros y cloddiau a thrwy y gwrychoedd.—Nis gallant feddwl yn uchel o honoch, yn gymmaint ag nad ydych wedi gwneuthur yr hyn a addawsoch.—Y mae'n rhaid eich bod yn gwybod yn dda am y plwyf hwnw, a chwithau wedi byw ynddo gyhyd [gan eich bod wedi byw ynddo gyhyd].—Pa ham yr ydych yn anfon Myfanwy ar ei phen ei hun, a hithau yn eneth mor

ofnus?—Yn gymmaint ag mai chwychwi a brynodd y dillad, chwychwi a raid dalu amdanynt.—Yn hytrach na bod yn ddiog, y mae'n well genym weithio am ddim.—Yr ydwyf, yn wir, yn dra diolchgar i chwi amdanynt.—Y maent wedi digio wrthym am eu rhwystro i fyned dros y cloddiau.—Y mae efe, ysywaeth, yn rhy hoff o gymdeithas pobl ddiog.—Y mae'r rhaffau hyn braidd yn rhy fyrion.—Y mae hi braidd yn oerach heddyw nag ydoedd hi ddoe.—Yn gymmaint ag i chwi fethu perswadio [fethu â pherswadio] y dynion, ni all neb eu perswadio.—Nis gallwn yn ein byw ddeall beth y maent yn ei feddwl.—Pa ham y beiwch ni [arnom ni] am siarad yn rhy uchel, a ninnau heb ddweyd yr un gair?—Ai hwnacw ydyw'r dyn sy'n cymmeryd arno ei fod yn wallgof? Nage.

B.) You are pretty well-informed, considering how few advantages you have had.—This fence is rather too high.—He is very fond of drink, the more the pity.—Although he has failed to gain the prize this year, he does not intend to give up.—Although **he himself** persuaded me to prevent the boy from going with them, he now finds fault with me for doing so.—We are not offended with them because they have laughed at us.—If they have told you so, they must be very great hypocrites.—He is tolerably well-informed, considering that he has never had many advantages.—We have all, alas, broken God's commandments.—Although he pretended to be mad, they all knew that he was not.—It is rather cold weather.—Although we are at present (*l.u.* "now") pretty comfortable, we have been *very* uncomfortable.—The coffee is rather too sweet.—Although my master has given me rather too much work, I am not unwilling to do what I can.—What you gave me was rather too much.—It is rather warmer this week than it was (**THE**) last week.—We have, unfortunately, promised to take all this work upon ourselves.—You are not always right, although you pretend to be so knowing.—As [since, seeing that] the servant confessed to you yesterday evening that he broke the window, you must pardon him.—Why are you offended with the young men? Because they have been so long in the village.—Do you blame me because I said that you were a dissenter?—Although || *they* failed to go through the hedge, || *we* went.—He is rather like || *your* brother; but he is more

like || *my* brother.—They must know London well, seeing that they have [having] lived there so long.—I cannot for the life of me [possibly] stop him.—To confess the truth, I did say that he was a hypocrite.—He blames you because you did not confess to him all (that) you knew.—As she is a rather timid girl, we must not send her by herself.

C.) She is afraid that she gave you rather too little time to do the work well.—They found fault with us for saying that they were dissenters.—We were (*p. ind.*) obliged to give up the work, inasmuch as they refused to help us.—We could not possibly go that day because the rain stopped us.—As they had not much time, they could not stop.—Why is her aunt so unkind to her, seeing that she has done nothing wrong?—What you have offered is rather too little.—To tell you the truth, we are not so young as you think we are.—Considering his great age, he is pretty strong.—They cannot for the life of them understand why the man pretends to be mad.—Seeing that **you** did not hinder him from going over the fence, why is he angry with you?—It is your duty to do something for her, seeing she is so very poor.—We are offended **with your brother, not with you**, because **he** beat the boy.—As **he** did not buy the clothes, he is not willing to pay for them.—“Rather than stop here,” said he, “I prefer going anywhere.”—They beat us, although **we** did not go through the hedge.

CHAPTER XLI.

[PLUPERFECT TENSE,—time clause,—ought or should,—“to put on,” —“to take off,”—not = *peidio*,—worse and worse,—*myned yn, dyfod yn.*]

§ 381. PLUPERFECT TENSE.

(a) *Periphrastic.*

Yr oeddwn (i) wedi bod, *I had been.* Gr. p. 64.

Yr oeddwn (i) wedi dysgu, *I had learnt.* Gr. p. 71.

(b) *Inflected.*

Buaswn (i), *I had been.* Gr. p. 64.

Dysgaswn (i), *I had learnt.* Gr. p. 71.

The inflected form is chiefly used in subjoined clauses, such as *relative indirect, interrogative, transitive, &c.*

(c) *Progressive.*

Yr oeddwn (i) wedi bod yn dysgu, *I had been learning.*

(d) "I ought (or should)." *Dylwn*: like imperf. of *Dysgu*.

"I ought to (or should) have." *Dylaswn*: like plup. of *Dysgu*.

(e) Learn the pluperfect of Irregular verbs.

Notes and References.§ 382. **Time clause.** Past time.

Pan, *er pan*, *tra*, *tan*, *cyn gynted ag*, are construed with *finite* verbs. (*Gr.* § 800.)

(a) They are followed by the affirmative particle *y* or *yr*: but *pan*, *er pan*, and *tân*, are often used without the particle, and then govern the *mid.* sound. (*Gr.* §§ 806, 807.)

(b) The particles of negation in a *Time clause* are *na*, *nad*, *nas*. *Gr.* § 800. [What clauses require *na*, *nad*, *nas*? *Gr.* § 687.]

(c) Order: *conjunction—verb—subject.*

Tan orphenodd hi [*tan y gorphenodd hi*] *ei gwaith*, *until she finished her work.*

Er pan glywodd [*er pan y clywodd*] *ei deulu oddi wrtho*, *since his family heard from him.*

Cyn gynted ag y dechreuodd efe siarad, *as soon as he began to speak.*

Wedi and *ar ol* are construed with *infinitive*¹ verbs.

(a) *Wedi* and *ar ol* govern the *rad.* sound.


(b) The construction of the sentence is the same as that of the *Transitive clause.* (*Ex.* § 370, *Forms II. and III.*)

Wedi iddo roddi ei fenyg am ei ddwyllaw, } *after he had put on his*
Wedi rhoddi o hono ei fenyg am ei ddwyllaw, } *gloves.*

Cyn, *nes*, and *hyd nes*, are construed with *finite* or *infinitive* verbs; i.e., either like *pan*, &c., or like *wedi*, &c. (*Gr.* § 801.)

Cyn, *nes*, and *hyd nes*, when construed with *finite* verbs, are followed by *y* or *yr*: when with *infin.*, they govern the *rad.* sound.

Nes y cododd efe o'i wely, }
Nes iddo godi [nes codi o hono] o'i wely, } *until he was out of bed.*


 In *Time clause*, the Eng. pluperfect is very frequently rendered into W. by the *perf. indefinite*.

¹ *Wedi* and *ar ol* are but rarely found with a *finite verb* of past time.

§ 383. Ought or should.

I ought to answer the letter, *dylwn ateb y llythyr.*

I ought to have answered the letter, $\left\{ \begin{array}{l} \textit{dylaswn ateb y llythyr.} \\ \textit{dylaswn fod wedi ateb y llythyr.} \end{array} \right.$

 The apodosis (or corresponding clause) of “*dylaswn ateb*” has its verb in the *imperf.* and *perf. indef.*; and that of “*dylaswn fod wedi ateb*” in the *present* and *perf. def.*

Dylaswn ateb y llythyr, ond ni wnaethym [ni ddarfu i mi], but I did not.

Dylaswn fod wedi ateb y llythyr, ond nid ydwyf (wedi ei ateb), but I have not (*answered it*).

§ 384. **On, am**; before pers. pron. *amdan*—. **Off, oddi am**; before pers. pron. *oddi amdan*—.

“To put *on*” (a garment, &c.): *rhoddi am*. The word that might be added after *on* is in most cases added after *am*.

“She had put on her gloves,” *yr oedd hi wedi rhoi ei menyg am ei dwylaw (= on her hands).*

“To take, put, or pull *off*” (a garment, &c.): *tynu oddi am*, or simply *tynu*.

“They had not taken off their gloves,” *nid oeddynt wedi tynu eu menyg,—nid oeddynt wedi tynu eu menyg oddi am eu dwylaw (= off their hands).*

§ 385. **Not**, negating an implied infinitive: *peidio*.

You must not, *rhaid i chwi beidio*.

You had better not, *gwell i chwi beidio*.

I had rather [I prefer] not, *gwell genyf beidio*.

You may as well not, *ni waeth i chwi beidio*.

§ 386. Eng. Worse and worse. W. Worse worse. (*Inflexed comparison.*)

Eng. More and more hard-hearted. W. More more hard-hearted. (*Periphrastic comparison.*)

Y mae'n myned yn waeth waeth, he is becoming worse and worse.
[~~§~~ 2nd adj. in *mid.* sound.]

Y mae'r dyn yn myned yn fwy-fwy calon-galed bob dydd, the man is becoming more and more hard-hearted every day.

§ 387. VOCABULARY.

Dress , <i>gwisg</i> , <i>pl.</i> -oedd (<i>f.</i>)	To put on , <i>rhoi</i> or <i>rhoddi am</i> , <i>gwisgo</i> .
Stocking , <i>hòsan</i> , <i>pl.</i> -au (<i>f.</i>)	To take [put, pull] off , <i>tynu oddi am</i> , <i>tynu</i> .
Family , <i>teulu</i> , <i>pl.</i> -oedd (<i>m.</i>)	

To dress (= to put clothes on), gwisgo am : gwisgo. ²	To become of, dyfod o.
To dress myself, gwisgo amdànaf (fy hân) : ymwisgo. ³	To become (= <i>becit</i>), gweddu i.
To undress, tynu (dillad) oddi am.	Ought or should. See § 383.
To undress myself, tynu (fy nillad) oddi amdànaf (fy hun).	Wet, gwlyb, <i>pl.</i> -ion.
To knock or strike, taraw, taro.	Hard-hearted, calon-galed (<i>pl.</i> calon-gelyd).
To knock at, curo wrth.	By (<i>before partic.</i>), trwy, wrth (<i>md.</i>)
To reach, arrive (at), cyrhaedd.	On, am ; amdan—.
To wait (for), aros (am).	Off, oddi am ; oddi amdan—.
To enter, dyfod or myned i mewn.	Before, <i>conj.</i> , cyn (<i>rd.</i>)
